# Cymru Wales Pension Partnership

## ADRODDIAD STIWARDIAETH BLYNYDDOL
## 2024–25



# Rhagair

## AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2025

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r pumed Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgarwch stiwardiaeth dros y flwyddyn, yn nodi'r camau yr ydym wedi'u cymryd ar y cyd â'n partneriaid a'r canlyniadau rydym wedi'u cyflawni, gan ddangos ein bod yn cydymffurfio â Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.

Os daeth un thema i'r amlwg o'n gwaith dros y flwyddyn, parhau i adeiladu ar gyfer dyfodol a rennir yw hwnnw. Roedd datblygiadau yn ystod 2024/25 yn cynnwys y canlynol:

- Fe wnaethom gwblhau'r gwaith ar lansio ein cynigion marchnadoedd preifat drwy lansio ein cynnig eiddo tirol, lle roedd buddsoddiad lleol yng Nghymru yn ystyriaeth allweddol wrth benodi Schroders.
- Dangoswyd ein hymrwymiad i adeiladu yng Nghymru ymhellach drwy'r bartneriaeth gyda Pluto Finance a'n buddsoddiad yn eu rhaglen effaith leol i ariannu tai fforddiadwy.
- Gwnaethom hefyd gynnydd sylweddol o ran datblygu cronfa ecwiti goddefol bwrpasol, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan (AWCR). Fe wnaethom ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'n hymgynghorwyr a'n partneriaid gweithredu i gwblhau dyluniad y gronfa, yr ydym yn disgwyl y bydd wedi cael ei lansio erbyn amser cyhoeddi'r adroddiad hwn.
- Mewn ymateb i ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol y llywodraeth, dechreuom osod y sylfeini ar gyfer cwmni rheoli buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru newydd, ar ôl cyflwyno ein cynigion cyfuno a chael cymeradwyaeth ar eu cyfer.

Mae cydweithio dal wrth wraidd gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru, a hynny gyda'r cronfeydd partner mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn eu gwasanaethu, ond hefyd gyda'n hystod ehangach o bartneriaid. Fe wnaethom adolygu, ac roeddem yn falch iawn o ailbenodi, ein Hymgynghorydd Goruchwylio (Hymans Robertson) a'n Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu (Robeco) yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu parhad yn ystod cyfnod o newid ehangach.

Mae stiwardiaeth wedi bod yn ffocws penodol dros y flwyddyn ddiwethaf. Gweithiom gyda Russell a Robeco i roi egwyddorion uwchgyfeirio ar waith ar gyfer ymgysylltiadau uwch a fethwyd, gan sicrhau ein bod yn parhau i wneud ein partneriaid yn atebol am eu gweithgaredd. Gan adeiladu ar hyn, fe wnaethom hefyd ddechrau gweithio ar ddatblygu ein fframwaith buddsoddi i sefydlu safonau gofynnol y gallwn eu gweithredu ar draws portffolios. Credwn y bydd hyn yn gwella ein safonau fel perchennog gweithredol unwaith caiff y prosiect ei gwblhau dros y flwyddyn nesaf.

Roeddem yn falch o gefnogi gweithredoedd ein partneriaid, gan lofnodi llythyr ar y cyd at bp, y bu i ni ei uwchgyfeirio wedyn yn ein pleidlais. Fe wnaethom hefyd gefnogi Datganiad Buddsoddwr Byd-eang 2024 i Lywodraethau.



**Y Cynghorydd Peter Lewis**
Cadeirydd, Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Hydref 2025

Mae'r ffocws ar fuddsoddiad lleol wedi bod yn elfen allweddol o bolisi'r llywodraeth, ac rydym yn awyddus i gael ein heffaith ein hunain, yn ogystal â dangos y gwerth y gall ein buddsoddiadau ei greu. Felly, rydym wedi comisiynu The Good Economy i werthuso ac adrodd ar yr effaith y mae ein buddsoddiadau presennol yn ei chael, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r gwaith hwn i feincnodi gweithgarwch yn y dyfodol.

Yn olaf, roeddem wrth ein bodd o gael ein cydnabod ar gyfer ESG Innovation yng Ngwobrau Buddsoddi LGC 2024 ym mis Tachwedd 2024 ar gyfer ein Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. Lansiwyd y strategaeth hon, y gyntaf y mae pob un o'r wyth cronfa bartner wedi ymrwymo iddi, yn 2023 gyda meini prawf cynaliadwyedd eglur. Mae'r meini prawf hyn hefyd wedi llywio datblygiad ein cronfa oddefol newydd.

# PWY YDYM NI

## Ein credoau

Rydym yn ffodus i fwynhau lefel uchel o gydweithio rhwng ein holl randdeiliaid. Credwn fod cyfraniadau parhaus yr Awdurdodau Cyfansoddol tuag at ddatblygiad y Gronfa Gyfunol a chyflawni ein nodau cyffredin yn faes sydd o gryfder penodol, sydd wedi'i adlewyrchu yn ein hamcanion ar y cyd:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain, lle'n ymarferol.
- Cyflawni arbedion cost sylweddol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn cyfranogol wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl talu ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa Gyfunol.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfunol eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu cael trwy ddatrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.
- Cyflwyno fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'n prif randdeiliaid: yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.
- Cyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau, trwy ddyrannu cyfalaf, parhau i graffu ar reolwyr asedau, ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

## Ein credoau yn ymarferol

Rydym yn parhau i gredu fod ein cryfder i'w gael yn ein credoau cyffredin a'n gallu i gydweithio tuag at gyflawni amcanion ar y cyd er budd holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adlewyrchir y rhain nid yn unig yn y model gweithredu a ddewiswyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys yr angen am arbenigedd allanol, ond hefyd yn y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i waith Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru (RISG), sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob chwarter i ymgysylltu'n benodol ar amcanion a chanlyniadau buddsoddi cyfrifol cyfunol y Gronfa Gyfunol.

O'r pwys mwyaf i weithredu ein hamcanion a'n credoau y mae defnyddio ein darparwyr gwasanaeth i gyflawni canlyniadau buddsoddi, gyda'n model gweithredu yn parhau i ddibynnu ar arbenigedd allanol i gefnogi rheolaeth barhaus y Gronfa Gyfunol, gan gynnwys yn ein hymdrechion stiwardiaeth a buddsoddi cyfrifol. Rydym yn parhau i ehangu'r cynigion buddsoddi sydd ar gael i'n cronfeydd partner, gan lansio eleni ein rhaglen eiddo tirol, sy'n cynnwys bwced penodol ar gyfer buddsoddi lleol ac effaith. O fewn dosbarthiadau asedau amgen, fe wnaethom hefyd archwilio dyraniadau cyfalaf naturiol, y gwnaethom ymrwymo iddynt trwy gronfa goedwigaeth ar ôl diwedd y flwyddyn.

# GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mae Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru bob amser wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau. Mae'r broses o gyfuno Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio â gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml y ffaith y bydd gan bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft, fel aelodau o gronfeydd gwaelodol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fel ymgynghorydd i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth.

Manylir ar ddull Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdaro buddiannau yn ein Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau. Lluniwyd y Polisi hwn i arddangos ein hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau. Egwyddorion allweddol ffordd Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdrawiadau yw:

- **Adnabod:** dylai partïon fod yn flaengar yn eu hymagwedd tuag at reoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi
- **Cydnabod:** rhaid i bartïon gydnabod unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Datgelu:** dylai partïon fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Rheoli:** dylai partïon weithio i fabwysiadu datrysiadau ymarferol i wrthdaro buddiannau lle bynnag y bo modd

Mae ein diffiniad o wrthdaro buddiannau yn cynnwys gwrthdaro posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn deall na fydd efallai'n bosibl adnabod, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig; fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i wneud hynny lle bynnag y modd. Mae'r Polisi hwn wedi'i ddatblygu gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru gan ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae wedi'i fwriadu i ddarparu canllawiau i bersonél a darparwyr y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau nad yw personél a darparwyr y Bartneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol.

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf rhanddeiliaid a buddiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yw hyn yn atal personél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

## Darparwyr allanol

Fel rhan o'i Pholisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallai defnyddio darparwyr allanol fod yn ffynhonnell gwrthdaro ac mae felly wedi sicrhau bod gan ei Darparwyr Gwasanaeth eu polisïau gwrthdaro eu hunain ar waith.

### Russell Investments

Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod gwrthdaro buddiannau posibl a allai fod wedi codi dros y flwyddyn fel stiwardiaid cyfalaf. Fel rheolwyr buddsoddi, cadarnhaodd Russell y gallai fod ganddynt wrthdaro buddiannau strwythurol sy'n hysbys ac y mae'n rhaid eu rheoli, megis cael eu talu yn seiliedig ar lefelau asedau dan reolaeth (AUM).

Gan ei fod yn ymwneud yn benodol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae Russell bob amser wedi sicrhau fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol, yn unol a'r Côd Ymddygiad Byd-eang. Fel rhan o hyn mae gan Russell strwythur ffioedd cost a mwy ei le, sy'n caniatáu i arbedion cost sylfaenol dros amser gael eu trosglwyddo'n ôl i'r Bartneriaeth. Mae Russell yn nodi hefyd nad ydynt yn rhedeg unrhyw arian yn fewnol ar gyfer y Bartneriaeth, sy'n cael gwared â ffynhonnell gwrthdaro posibl.

Mae Russell yn rheoli gwrthdaro buddiannau yn unol â'r gofynion rheoleiddio ac yn ddarostyngedig i'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y flwyddyn adrodd hon.

## Robeco

Mae Polisi Stiwardiaeth Robeco yn amlinellu eu dull o adnabod a rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar 'Weithdrefn Gwrthdaro Buddiannau' Robeco a'r 'Rheoliadau ynghylch Trafodion Buddsoddi Preifat'. Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau a allai godi yn gysylltiedig â gweithgareddau stiwardiaeth Robeco yw:

- Cwmni sy'n cael ei ddewis ar gyfer ymgysylltu neu sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig
- Mae gan Robeco hawliau pleidleisio mewn cwmni sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig.
- Mae gwahanol gleientiaid yn ffafrio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.

Rhag ofn y gallai perthynas fusnes fygwth gwrthrychedd neu natur gweithgareddau stiwardiaeth, ymgynghorir ag adran gydymffurfio Robeco. Os oes angen dilyn gweithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ôl ymgynghori ag adran gydymffurfio Robeco, caiff gwahanol randdeiliaid eu hysbysu gan gynnwys Pwyllgor Gwaith Robeco a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

## Hymans Robertson

Mae gan Hymans Robertson gynllun rheoli gwrthdaro buddiannau manwl ar waith ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, sydd wedi'i ddylunio'n benodol i roi sylw i achosion lle cedwir Hymans Robertson i ddarparu cyngor buddsoddi i unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, wrth hefyd ddarparu cyngor i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar yr un pryd.

Mae nifer o berthnasoedd ymgynghorol o'r fath eisoes yn bodoli ac maent wedi'u datgelu i bob parti. Rheolir y gwrthdaro yn barhaus trwy sicrhau nad yw'r timau sy'n cynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am y cyngor parhaus a roddir i Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Pan roddir unrhyw gyfarwyddiadau newydd, bydd Hymans Robertson yn rhoi gwybod i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r parti perthnasol am y gwrthdaro posibl, gan gynghori ar hyd a lled y gwasanaethau a'r ymgynghorydd sydd ynghlwm wrth roi'r cyngor. Dros y flwyddyn, darparwyd cyngor (yn barhaus ac ar sail ad hoc) i bump o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Roedd y timau oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fod yn wahanol i'r tîm oedd yn gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru.



# POLISÏAU, MONITRO AC ADOLYGU

## Ein fframwaith polisi

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru nifer o bolisïau sy'n rheoli'r ffordd yr ydym yn gweithredu Is-gronfeydd ac yn ymarfer stiwardiaeth dros ein hasedau. O bwysigrwydd arbennig i'n hymdrechion stiwardiaeth y mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, y Polisi Hinsawdd a'r Polisi Stiwardiaeth.

## Adolygu a diweddaru ein polisïau

Rydym yn adolygu ein polisïau bob blwyddyn, gan gynnal yr adolygiad diweddaraf ym mis Mawrth 2025 (gyda chymeradwyaeth derfynol yn dilyn diwedd y flwyddyn), a symud i ddull lle mae'r tri pholisi bellach yn cael eu hadolygu ar yr un pryd.

Roedd nifer o newidiadau wedi'u rhoi ar waith ar draws y polisïau, gan gynnwys:

### Stiwardiaeth

Diweddarwyd adrannau stiwardiaeth ar draws polisïau i gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu nid yn unig â chorfforaethau unigol, ond hefyd ar y lefel macro (polisi) ehangach. Roeddem hefyd yn dymuno cydnabod y gall stiwardiaeth (pleidleisio ac ymgysylltu) fod yn wahanol yn dibynnu ar ranbarthau a sectorau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn marchnadoedd datblygol yn erbyn marchnadoedd newydd, ond hefyd i gydnabod sut y gall cyfyngiadau rheoleiddiol effeithio ar stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn gwahanol ranbarthau. Mae newidiadau gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau, yn ogystal â newidiadau yn y farchnad gyfalaf yn Ewrop, yn enghreifftiau diweddar o hyn.

Caiff y newidiadau mwyaf arwyddocaol i bob polisi penodol eu hamlinellu isod.

### Polisi Buddsoddi Cyfrifol

#### Lleol

Fe wnaethom ychwanegu cyfeiriad penodol at gyfleoedd buddsoddi lleol, gan gydnabod ymrwymiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i fuddsoddi yng Nghymru. Rydym yn credu bydd hyn yn elfen gynyddol bwysig, o ystyried y newidiadau disgwyliedig yn dilyn ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol.

#### Stiwardiaeth

Fe wnaethom ddiweddaru'r adran stiwardiaeth o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol i gydnabod y potensial o gymhwyso polisi pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru i strategaethau ecwiti goddefol y Gronfa.

### Polisi Hinsawdd

#### Credoau

I gydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng newid hinsawdd a natur, a phwysigrwydd mynd i'r afael â'r rhain gyda'n gilydd, ychwanegom at ein credoau hinsawdd. Mae gwytnwch natur yn elfen hanfodol wrth addasu i newid hinsawdd a lliniaru yn ei erbyn, felly rhaid mynd i'r afael â'r ddau gyda'i gilydd.

O ran ystyriaethau hinsawdd, fe wnaethom ail-fframio un o'n credoau i adlewyrchu pwysigrwydd cydnabod datrysiadau hinsawdd, yn ogystal â risg hinsawdd. Roeddem hefyd eisiau cydnabod y byddai hyn nid yn unig yn nhermau buddsoddiadau neu wasanaethau newydd, ond yn y modd parhaus rydym yn monitro ac yn datblygu cynhyrchion a gwasanaethau presennol

### Polisi Stiwardiaeth

#### Ymgysylltu

Roeddem am bwysleisio bod ymgysylltu nid yn unig yn lliniaru yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) perthnasol, ond bod ymgysylltu ar y materion hyn hefyd yn gallu ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

#### Uwchgyfeirio

O ran uwchgyfeirio, roeddem am dynnu sylw at y pwynt penodol hwnnw ynghylch ymgysylltiadau uwch, h.y. yr ymgysylltiadau hynny lle mae pryder cynyddol am faterion dadleuol byd-eang neu fynd yn groes i arferion normal byd-eang. Roeddem hefyd eisiau cydnabod yn benodol, er nad oes gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru bolisi dadfuddsoddi cyffredinol, caiff ei ddefnyddio lle bo hynny'n briodol.

### Pleidleisio

Mae Polisi Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgorffori Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco (sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Stiwardiaeth Robeco) yn uniongyrchol, gan y bernir bod hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â disgwyliadau'r Bartneriaeth ei hun. Gan RISG y mae'r cyfrifoldeb am adolygu newidiadau i Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Robeco, gydag unrhyw bryder o bwys yn cael ei gyfathrebu i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w ystyried lle bo hynny'n briodol.

Eleni gwelwyd newidiadau cymharol fach i'r Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy. Roedd y newid cyntaf mewn perthynas ag etholiadau bwrdd, lle na fydd Robeco yn cefnogi etholiad cyfarwyddwr lle bo unrhyw broblemau gyda dosbarthiadau cyfranddaliadau deuol (h.y. lle mae'r rhain yn bodoli heb fesurau diogelu priodol i gyfranddalwyr). Roeddem yn teimlo bod y newid hwn yn gyson ag ymgysylltiadau parhaus ynghylch llywodraethu a marchnadoedd cyfalaf, felly rydym yn gefnogol o'r newid.

O ran cynigion cyfranddalwyr (SHPs), roedd dau newid. Y cyntaf oedd ei gwneud yn glir y bydd Robeco ar y cyfan yn cefnogi cynigion cyfranddalwyr lle bo'r pwnc yn un y mae rheolwyr a chyfranddalwyr yn mynd i'r afael ag ef yn rhan o'i gylch gwaith. Yr ail newid oedd ehangu'r rhestr o gynigion cyfranddalwyr a gefnogir yn gyffredinol; yn benodol pan fydd y rhain yn ymwneud â thryloywder ac adrodd ynghylch: hinsawdd; gwariant gwleidyddol; a Deallusrwydd Artiffisial.

Y newid olaf i'r Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy yw yn nhermau gweithredu pleidleisio, gan amlinellu sut mae Robeco yn ymateb yn fewnol lle bo unrhyw anghytundeb ar gyfarfodydd cyfranddalwyr dadleuol. Mae'r newid yn gwella'r broses o oruchwylio a gwneud penderfyniadau, lle caiff unrhyw anghytundeb o'r fath ei ddwyn i sylw'r pwyllgor gweithredol i gael ei fewnbwn.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn teimlo bod yr holl newidiadau'n parhau i fod yn unol â'n disgwyliadau.

### Cylch Gorchwyl RISG

Eleni, bu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru adolygu Cylch Gorchwyl RISG, o ystyried bod cylch gorchwyl y grŵp wedi ehangu ers ei sefydlu. Un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol oedd rhoi'r gallu i RISG roi cyfarwyddyd i Robeco bleidleisio yn unol ag argymhellion LAPFF (mewn achosion lle nad oedd hyn yn unol ag argymhellion pleidleisio Robeco ei hun). O ystyried yr amserlen gyfyng o ran pleidleisio, y farn oedd bod hwn yn achos o ddirprwyo grym **neilltuo**, gan na fyddai mynd trwy'r prosesau llywodraethu arferol yn caniatáu i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gael ei roi o fewn yr amserlenni angenrheidiol. Helaethwyd nifer y cynrychiolwyr RISG hefyd (i gynnwys pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru), tra bo elfen arall o oruchwyliaeth wedi'i hychwanegu hefyd, i gydnabod yn benodol rôl RISG wrth fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru a chynyddu'r rhain lle bo angen (yn fewnol ac yn allanol).

## Monitro cydymffurfiaeth â'n polisïau

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'i pholisïau allweddol bob blwyddyn. Gan weithio gyda Hymans Robertson, yr Ymgynghorydd Goruchwylio, adolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei gydymffurfiaeth â'i ymrwymiadau yn y Polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Hinsawdd yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio fframwaith coch-ambr-gwyrdd (RAG). Cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ganlyniad yr adolygiad hwn, gyda chrynodeb o'r asesiadau wedi'i gynnwys fel Atodiad 2 (a'r adroddiad llawn ar gael ar ein wefan). Rydym yn cydnabod y gallwn barhau i wella ein prosesau ein hunain a'r modd yr ydym yn gwasanaethu ein holl randdeiliaid, ac y bydd y broses hon o adolygu a thryloywder parhaus yn parhau i wella ein stiwardiaeth barhaus. Dros y flwyddyn, roeddem yn falch nad oedd unrhyw feysydd lle nad oedd disgwyliadau polisi wedi'u bodloni, gyda'r holl ymrwymiadau naill ai'n wyrdd neu'n ambr o dan fframwaith RAG. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ein gwaith ar yr hinsawdd, yn benodol wrth wneud cynnydd o ran nifer o argymhellion Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan – gan gynnwys gwaith ar incwm sefydlog a datblygu ein datrysiad goddefol. O safbwynt goruchwylio, gwnaethom ddatblygu sut rydym yn adrodd ar ein rhestr ffocws a'n fframwaith hinsawdd. O fewn ein rhaglenni buddsoddi, cytunwyd ar y rhaglen eiddo tirol dros y flwyddyn, ac rydym yn hynod awyddus i dynnu

sylw at yr effaith benodol a'r dyraniadau lleol a fydd yn cael eu gwneud yno. Yn olaf, ar stiwardiaeth, gwnaethom ymgorffori ein hegwyddorion uwchgyfeirio a pharhau i weithio'n agos gyda'n darparwyr gwasanaeth i gyrraedd ein nodau stiwardiaeth; roedd hyn yn cynnwys cyfranogiad Partneriaeth Pensiwn Cymru ar baneli cleientiaid Robeco, gan helpu i lywio'r cyfeiriad ar gyfer pynciau ymgysylltu, sy'n cynnwys hawliau dynol, natur ac ymgysylltu sofran.

Eleni, fe wnaethom hefyd ychwanegu elfen newydd i'r fframwaith RAG, gan ychwanegu 'llwybr i wyrdd' ar gyfer unrhyw ymrwymiadau a oedd wedi'u nodi'n rhai ambr neu goch. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion dros 2025/26.

O ran meysydd ffocws i wneud cynnydd arnynt dros 2025/26, rydym yn tynnu sylw at waith parhaus ar hwyluso nod hinsawdd cyffredin a'r awydd i ddadansoddi senarios ar asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o'n hadroddiadau hinsawdd. O ran stiwardiaeth, credwn y byddai'n fuddiol defnyddio'r cyfarfodydd RISG fel fforwm anffurfiol i drafod cyfleoedd cydweithio. Ar hyn o bryd, mae darparwyr gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dod â chyfleoedd cydweithio i'r Gronfa Gyfunol, ond nid oes unrhyw fecanwaith er mwyn i hyn ddigwydd o'r Gronfa Gyfunol i ddarparwyr gwasanaeth.

## Sicrhau ein prosesau

Fel Ymgynghorydd Goruchwylio, mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r gwaith a wneir gan Russell, Waystone a Robeco, gan felly roi sicrwydd parhaus i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. O ystyried natur fanwl a'r cyfyngiadau amser angenrheidiol, yn ogystal â'r diffyg adnoddau mewnol sydd ar gael i gynnal yr adolygiadau hyn, mae angen adnoddau allanol i ddarparu'r swyddogaeth hon, swyddogaeth sy'n caniatáu i PPC sicrhau bod ei Ddarparwyr Gwasanaeth yn cyflawni amcanion.

### Adolygu gweithgarwch stiwardiaeth

Er mwyn helpu i adolygu'r gweithgarwch stiwardiaeth a wneir ar ran PPC, ac i sicrhau bod meysydd ffocws yn bodloni nodau stiwardiaeth y Gronfa, mae Hymans Robertson yn darparu adroddiadau chwarterol ar ei weithgaredd Buddsoddi Cyfrifol gan Is-Gronfa. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Robeco dros y chwarter, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch ymgysylltu ychwanegol gan Russell, gyda manylion hefyd yn cael eu darparu ar waith stiwardiaeth LAPFF.

### Adolygu Rheolwyr Buddsoddi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro gwaith ei rheolwyr buddsoddi. Fodd bynnag, eleni, cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y cyd â'i Ymgynghorydd Goruchwylio, adolygiad cynhwysfawr o'i Ddarparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau, gyda Russell IM yn cyflawni'r rôl hon dros y chwe blynedd diwethaf. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y modd roedd Russell yn darparu'i wasanaeth ac yn cynnwys adolygiad penodol o'i swyddogaeth buddsoddi cyfrifol. Canfu'r adolygiad nifer o gryfderau allweddol, gan gynnwys gallu Russell i ddarparu datrysiadau cymhleth a phwrpasol ar gyfer cleientiaid mawr fel Partneriaeth Pensiwn Cymru a sgôr gyffredinol dda o ran ymagwedd y cwmni at Fuddsoddi Cyfrifol.

Amlygodd yr adolygiad hyblygrwydd a natur gydweithredol iawn y berthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru; er enghraifft, er nad Russell yw adnodd stiwardiaeth penodedig Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae wedi bod o gymorth drwy ddarparu astudiaethau dilynol (a deialogau rheolwyr) ar gyfer unrhyw un o'r dyroddwyr hynny yr ydym wedi mynegi pryder amdanynt o ran pynciau ESG sy'n flaenoriaeth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Russell hefyd wedi gweithio'n agos gyda Hymans a Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ddatblygu a gweithredu egwyddorion uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Russell wedi dangos ymgysylltiad rhagweithiol â dyroddwyr gwaelodol ac yn gweithio i rannu rhagor o wybodaeth am warantau unigol i gefnogi goruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda dulliau mewnol gwaelodol cryf, ymchwil a monitro rheolwyr, a throshaenau. Mae Russell yn rhoi sylw dyledus i'r maes hwn / neilltuo adnoddau digonol.

## Caffael darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu

Penododd Partneriaeth Pensiwn Cymru Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu yn wreiddiol yn 2020, gyda'r nod o helpu'r Gronfa Gyfunol i lunio a gweithredu sylfaen ar gyfer ei huchelgeisiau stiwardiaeth, gan ganolbwyntio ar lunio polisi pleidleisio priodol. Ail-dendrwyd y contract yn ystod y flwyddyn, gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn gweld hwn fel cyfle i ddiwygio cwmpas y gwasanaethau, i gydnabod galw stiwardiaeth ehangach y Gronfa. Roedd y cwmpas newydd yn amlinellu'n benodol wasanaeth mwy pwrpasol, gan gynnwys cefnogi adrodd, gweithredu egwyddorion uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru, a chyfrannu i'r fframwaith stiwardiaeth. Mae'r cwmpas hefyd yn amlinellu ein disgwyliad y byddai ein polisi pleidleisio yn cael ei ymestyn i ddyraniadau ecwiti goddefol Partneriaeth Pensiwn Cymru a mwy o dryloywder ynghylch pleidleisio (rhesymeg ac ystyried argymhellion pleidleisio LAPFF). Yn dilyn ymarfer caffael manwl, roeddem yn falch iawn o ailbenodi Robeco wedi'r broses hon.



# EIN BUDDSODDIADAU

Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn agored â buddion wedi'u diffinio sydd â gorwelion buddsoddi hirdymor. Tra bod y buddion sylfaenol a ddarperir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredin i bawb, mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, gan roi ystyriaeth i'w polisïau eu hunain, eu sefyllfa ariannol a'u haelodaeth waelodol.

Felly mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru y dasg o ddarparu a rheoli cyfryngau buddsoddi y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaeth ddewisol trwyddynt.


## Asedau dan reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 10 Is-gronfa gyfunol weithredol a thair rhaglen Marchnad Breifat, gyda chyfran yr asedau cyfunol yn parhau i fod tua 70% (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol). Mae'r ystod o Is-gronfeydd a gynigir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi'r cyfleoedd buddsoddi i'r Awdurdodau Cyfansoddol fodloni eu gofynion unigol. Mae pob un o Gronfeydd Cymru yn buddsoddi mewn o leiaf ddwy Is-gronfa weithredol, gydag un Gronfa yn buddsoddi mewn cymaint â saith. Mae parhau i ddatblygu Is-gronfeydd yn rhan allweddol o gynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru.

| Cyfunol weithredol | Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan | Rheolwyr gwaelodol | Cyfanswm £m (2024/25) |
|---|---|---|---|
| Ecwiti: Marchnadoedd Datblygol | 4 | 6 | 273.0 |
| Ecwiti: Twf Byd-eang | 5 | 4 | 3,541.1 |
| Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang | 5 | 8 | 3,402.3 |
| Ecwiti: Cyfleoedd y DU | 2 | 5 | 765.5 |
| Ecwiti: Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | 8 | 4 | 1,524.3 |
| Incwm Gosod: Bond Elw Absoliwt | 3 | 4 | 532.8 |
| Incwm Gosod: Credyd Byd-eang | 5 | 4 | 1,026.5 |
| Incwm Gosod: Llywodraeth Fyd-eang | 2 | 2 | 503.4 |
| Incwm Gosod: Credyd Aml-asedau | 5 | 5 | 848.8 |
| Incwm Gosod: Credyd Sterling | 1 | 1 | 726.5 |
| **Cyfunol goddefol** | 7 | 1 | £5,065.0 |
| **Marchnadoedd preifat** | | | |
| Seilwaith | 5–7* | 5 | 680* |
| Credyd Preifat | 7 | 1 | 302* |
| Ecwiti Preifat | 5 | 1 | 114* |
| **Cyfanswm** | | | **£19,305.20** |

*o ystyried yr aml-gyfnodau a'r adrannau gwahanol, gellir dangos ystod o 'Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cyfrannu'; *gwerthoedd tynnu i lawr

**Dosbarthiad rhanbarthol asedau a reolir yn weithredol (a restrir)**




**Ffynhonnell:** Waystone; Russell Investments. Figures may not sum to 100% due to rounding.

## ASTUDIAETH ACHOS: ECWITI GWEITHREDOL CYNALIADWY




Lansiodd Partneriaeth Pensiwn Cymru yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2023. Dyma'r tro cyntaf i bob un o'r wyth sy'n bartneriaid yn y Gronfa Gyfunol fuddsoddi, sy'n dangos bod cefnogaeth eang ledled Cymru i fuddsoddi gyda'i gilydd yn gynaliadwy am y tro cyntaf. Gan ddefnyddio fframwaith ymchwil trylwyr a dull hyblyg i addasu i themâu cynaliadwyedd sy'n esblygu, mae'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn canolbwyntio ar ganlyniadau ariannol a chynaliadwyedd, sy'n cynnwys targedau datgarboneiddio, yn ogystal â meini prawf gwaharddol y cytunodd yr holl awdurdodau arnynt rhyngddynt. Mae'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy hefyd yn defnyddio modiwl metrig effaith Nodau Datblygu Cynaliadwy i asesu aliniad Nodau Datblygu Cynaliadwy y portffolio, a ddefnyddir ar gyfer rheoli portffolio'n barhaus, yn ogystal ag adrodd ar Nodau Datblygu Cynaliadwy. Adeiladwyd yr Is-gronfa mewn cydweithrediad agos â Waystone, Russell IM, Ymgynghorydd Goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'r Awdurdodau Cyfansoddol, ac mae wir yn dangos effeithiolrwydd natur gydweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru. Roeddem felly wrth ein bodd o gael cydnabyddiaeth am ESG Innovation yng Ngwobrau Buddsoddi LGC. Mae'r wobr yn adlewyrchu'r pwys hanfodol y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru a'i hawdurdodau cyfansoddol yn dal i'w roi ar faterion cynaliadwyedd, ac mae'n cydnabod bod yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy wedi tyfu i fod yn un o'r cronfeydd buddsoddi cynaliadwy mwyaf o'i math yn y DU.

## Gwella'r ystod o gyfleoedd buddsoddi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion datblygol ei rhanddeiliaid trwy sicrhau bod ystod o Is-gronfeydd ar gael i bob Awdurdod Cyfansoddol gwaelodol o fewn y Gronfa Gyfunol.

### Eiddo tirol

Ehangodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei marchnadoedd preifat dros y flwyddyn, gan ddyfarnu contractau ar gyfer y rhaglen buddsoddi eiddo tirol. Bydd Schroders yn rheoli'r bwced DU a lleol/effaith, tra bydd CBRE yn rheoli'r bwced byd-eang. Bydd cael bwced lleol ac effaith benodol yn helpu i hyrwyddo ymhellach uchelgeisiau Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r adran yn yn targedu tair thema eang: lleol (Cymru); carbon; a chymdeithasol. Bydd buddsoddiadau'n canolbwyntio ar nifer o feysydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, gofal iechyd a chyflogaeth, yn ogystal â chreu cyfleoedd effaith gymdeithasol cadarnhaol a'r rheiny sy'n unol â tharged sero net Partneriaeth Pensiwn Cymru.

### Cyfalaf Naturiol

Ymunodd nifer o gronfeydd partner Partneriaeth Pensiwn Cymru â'r cyd-gronfa CPLlL, CIV Llundain, wrth ddyrannu i Gronfa Goedwig VI Gresham House. Nod y strategaeth a gefnogir gan asedau yw creu coetir newydd ar dir sydd heb ei blannu, yn ogystal â chaffael coedwigoedd twf sefydledig yn y DU. Bydd y gronfa'n cynhyrchu incwm o bren wedi'i gywain yn gynaliadwy, gan gynnwys o safle Brycheiniog yn Ne Cymru. Mae'r safle yn cynnig nifer o gyd-fanteision, gan gynnwys atafaelu carbon, diogelu cynefinoedd, yn ogystal â chefnogi creu swyddi lleol.

| Dosbarth asedau | Apwyntiadau rheolwr / dyrannwr |
|---|---|
| Ecwiti Preifat | Schroders |
| Seilwaith | **Rhaglen Ben-gaead:** GCM Grosvenor<br>**Rhaglen Ben-agored:** Cronfa Seilwaith Byd-eang CBRE; Cronfa Seilwaith Byd-eang IFM; Octopus Renewables Infrastructure Sky Fund<br>**Ffermydd gwynt Cymru** Capital Dynamics |
| Dyled Breifat | Russell Investments |
| Eiddo tirol | **Eiddo tirol craidd y DU:** Schroders<br>**Eiddo tirol rhyngwladol:** CBRE<br>**Eiddo tirol lleol/effaith:** Schroders |

## Datblygu ein His-gronfeydd presennol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y cyd â'i darparwyr gwasanaethau, yn monitro ei chyfryngau buddsoddi yn barhaus i sicrhau eu bod yn bodloni'r disgwyliadau. Fel perchnogion gweithredol, efallai y byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu ein his-gronfeydd i ddiwallu ein hanghenion yn well. O fewn rheolaeth barhaus yr Is-gronfeydd, mae Russell wedi dirprwyo awdurdod i addasu'r grŵp o reolwyr ac mae wedi gwneud newidiadau o ran rheolwyr ar draws tair o'r Is-gronfeydd dros y flwyddyn. Mae gan y Bartneriaeth raglen fonitro ffurfiol i werthuso perfformiad yr Is-gronfeydd ac effaith gweithgaredd dethol rheolwyr yn erbyn disgwyliadau, gan gynnwys metrigau cynaliadwyedd.

### ASTUDIAETH ACHOS:

#### Incwm sefydlog

Lansiodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei His-gronfeydd incwm sefydlog yn 2020. Bryd hynny, roedd cynigion cynaliadwyedd ar draws marchnadoedd incwm sefydlog yn gyfyngedig, ac ymhell y tu ôl i rai marchnad ecwiti cyfwerth. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r dirwedd incwm sefydlog gynaliadwy wedi datblygu mewn ymateb i alw buddsoddwyr a rheoleiddio esblygol. Mae rheolwyr incwm sefydlog yn cydymffurfio â safonau Buddsoddi Cyfrifol llymach ac yn cyd-fynd mwyfwy â phryderon cynaliadwyedd. Mae ehangiad cyflym cynhyrchion incwm sefydlog cynaliadwy wedi arwain at welliannau mewn argaeledd data a stiwardiaeth ar draws y dosbarth asedau.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Russell IM wedi bod yn asesu sut i wella proffil cynaliadwyedd yr Is-gronfeydd incwm sefydlog mewn ymgynghoriad â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan ddechrau gyda'r Is-gronfa Credyd Byd-eang. I wneud hynny mae Russell wedi gwneud nifer o newidiadau, heb newid yr amcanion risg ac elw neu'r meincnod. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau i un o'r adrannau sylfaenol, sydd bellach yn defnyddio dull mwy cynaliadwy trwy gael gwared ar enwau ag allyriadau uwch. Mae dau newid wedi bod o ran rheolwyr hefyd, gyda'r rheolwyr newydd yn dangos galluoedd sero net uwch, gyda chynnydd canlyniadol mewn dyraniadau i fondiau gwyrdd, cymdeithasol neu gynaliadwy.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Ecwiti goddefol**

Un o'r argymhellion yn Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol (gan gynnwys cymhwyso polisi pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r fath fuddsoddiadau), gyda'r bwriad o gael cynnyrch a allai helpu i gyrraedd y nodau hinsawdd ac ESG eraill. Er bod saith o'r wyth cronfa bartner eisoes wedi symud rhan o'u dyraniadau ecwiti i gynnig mwy cynaliadwy, roeddem am archwilio'r potensial i gael datrysiad goddefol unig-fuddsoddwr mwy cynaliadwy.


Yn gyntaf arolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru yr Awdurdodau Cyfansoddol i ddeall eu blaenoriaethau. Roedd y meysydd ffocws yn cynnwys: alinio sero net; alinio tymheredd; gostyngiadau i allyriadau; a gwella sgorio ESG. Gan dynnu ar ganlyniadau ymatebion yr arolwg, amlinellwyd crynodeb o ofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru i RISG a'r Gweithgor Swyddogion, gan drafod nifer o gynigion marchnad posibl. Rhannwyd y gofynion gyda darparwr goddefol Partneriaeth Pensiwn Cymru, BlackRock, i ddeall a fyddai'n bosibl datblygu'r portffolio presennol. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch blaenoriaethu themâu yn natblygiad y datrysiad. Rhannwyd tri opsiwn dylunio posibl, gan drafod y llinellau coch amrywiol a thynnu sylw at eu heffaith o ran risg/elw. Dros y flwyddyn, yn dilyn ymgynghoriad helaeth rhwng BlackRock, Partneriaeth Pensiwn Cymru a rhanddeiliaid eraill, penderfynwyd ar ddyluniad terfynol.

Gwnaed llawer iawn o gydweithio yn hyn ac mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i'r datrysiad gael ei lansio yn 2025/26, gan ymgorffori polisi pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru.



# EIN DULL BUDDSODDI CYFRIFOL

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn bod integreiddio ffactorau ESG, gan gynnwys ystyried risgiau a chyfleoedd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd o golli arian. Wrth i asedau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru gael eu rheoli'n allanol, mae'r Bartneriaeth yn gosod disgwyliadau ar sut y dylid rheoli asedau gyda Russell a rheolwyr gwaelodol eraill i sicrhau bod safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, y modd y caiff materion ESG eu hintegreiddio, y dull o reoli risg a stiwardiaeth yn cyd-fynd â'i gilydd.




## Russell Investments

Mae Russell yn integreiddio ffactorau ESG yn ei broses fuddsoddi trwy werthuso rheolwyr buddsoddi a thrwy ddarparu datrysiadau buddsoddi perchnogol. Mae Russell yn defnyddio mewnbynnau meintiol ac ansoddol ar sail tri bloc adeiladu - arolwg rheolwr blynyddol ESG; diwydrwydd dyladwy ESG penodedig, a data a dadansoddi - i asesu ymwybyddiaeth rheolwr o ESG a'r modd y mae'n integreiddio hyn. Yna defnyddir y mewnbynnau hyn i bennu safle, sy'n cyfrannu at safle cyffredinol y rheolwr. Mae'r sgôr yn amrywio o un i bump, gyda 'tri' yn cael ei ystyried yn gyson â chyfartaledd y grŵp cyfoedion.

**Ar gyfer y cronfeydd hynny ag amcan cynaliadwy eglur, megis yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, ychwanegir haen ychwanegol o werthuso, trwy gyfrwng fframwaith Bwriad-Proses-Canlyniad (I-P-O) Russell:**

- Bwriad: athroniaeth ac amcanion y cynnyrch, gan sicrhau ymrwymiad i ganlyniadau cynaliadwyedd
- Proses: ystyried pa mor gyson ac effeithiol gall ESG ac arferion Buddsoddi Cyfrifol gael eu hymgorffori gan y rheolwr ar lefel cynnyrch
- Canlyniad: gwerthuso nodweddion ESG strategaeth, sy'n wahanol yn ôl dosbarth asedau ond a all gynnwys dangosyddion fel y math o fuddsoddiad targed, risg ESG isel, aliniad refeniw neu allyriadau carbon isel

**Mae'r fethodoleg sgorio yn cynnwys pedair cydran:**

- Ymrwymiad i faterion ESG: Mae adnoddau ESG yn gadarn ac yn cyd-fynd â'r broses fuddsoddi. Mae gan unigolion sy'n gyfrifol am faterion ESG brofiad perthnasol ac maent yn fedrus. Mae amrywiaeth o ffynonellau ac offer data o ansawdd uchel ar gael i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi.
- Ystyriaeth i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu: mae ymwybyddiaeth gref o effaith risg ac elw ESG yn amlwg. Mae'r ehangder a'r dyfnder persbectif yn well na chymheiriaid. Mae'r ddealltwriaeth yn deillio o ymchwil cynradd ac yn cael ei gwahaniaethu.
- Gweithredu materion ESG: Caiff dealltwriaeth o ffactorau ESG ei throsi'n effeithiol a chyson wrth bennu safle portffolios. Mae'r rheolwr yn dangos yn glir sut y mae safle'r portffolios yn adlewyrchu'r modd y caiff y gyrwyr risg ac elw ESG perthnasol eu rheoli.
- Perchnogaeth Weithredol: Mae tryloywder, ansawdd a hyd yr ymgysylltu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion ESG yn rhagori'n gyson ar gronfeydd tebyg. Caiff mesuriadau llwyddiant eu datgan yn glir ac maent yn briodol. Mae canlyniadau Perchnogaeth Weithredol neu Asesiadau Effaith ar gael yn hwylus ac yn cael eu cofnodi.

| 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
|---|---|---|---|---|


- The manager demonstrates **strong awareness** of the potential risk-and-return impacts of ESG issues on individual holdings and the portfolio structure.
- The manager can **clearly demonstrate** how portfolio positioning reflects the management of relevant ESG risks.
- The manager can **clearly demonstrate** how relevant ESG exposures can add value.

↔

- The manager **does not demonstrate awareness** of potential risk-and-return impacts of ESG issues on portfolio holdings.
- **Meaningful discrepancies** between target ESG guidelines and portfolio holdings.
- Manager's perspective and analytical **inputs on ESG issues lack rigour.**

Mae Russell yn adrodd ei sgoriau ESG ar gyfer pob un o reolwyr yr is-gronfeydd gwaelodol i'r Bartneriaeth, gyda'r rhain yn cael eu crynhoi isod o'u cymharu â sgoriau yn 2024.

**Gradd ESG Russell ar gyfer rheolwyr gwaelodol ar 31.03.25 vs 31.03.24**




**Ffynhonnell:** Russell Investments; rhaid nodi nad oedd ein ffigurau'n iawn tro diwethaf; mae cymariaethau wedi'u diweddaru i adlewyrchu hyn. Gall rheolwyr ymddangos mewn mwy nag un Is-gronfa; er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith, dim ond unwaith y cofnodwyd y sgôr. O gofio bod y rheolaeth ar gyfer Twf Byd-eang wedi'i drosglwyddo i Russell IM dros y flwyddyn, yn ogystal ag ychwanegiadau rheolwyr yn gyffredinol ar gyfer Is-gronfeydd eraill, mae cynnydd yn nifer y rheolwyr a gynrychiolir.

## ASTUDIAETH ACHOS:

### Lleihad yn sgôr ESG rheolwr

Nodwn fod sgôr ESG un o'r rheolwyr dros y flwyddyn wedi lleihau (o '4' i '3', hynny yw, yr un peth nawr â chyfoedion). Ar ôl cysylltu â Russell IM, fe wnaethant ddweud eu bod yn ystyried bod y rheolwr wedi gwneud ymrwymiad digonol i Integreiddio ESG. Maent wedi buddsoddi mewn data, signalau perchnogol a'u tîm buddsoddi - yr un peth â chyfoedion. Mae Russell yn credu bod ymgorffori 15 piler ESG i'w fframwaith ffactorau yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r signalau ESG hyn yn rhan o set eang o ffactorau, a thrwy hynny'n cyfyngu ar ddylanwad ystyriaethau ESG wrth bennu lleoliad. Nid oes gan y rheolwr ffocws perchnogaeth weithredol cryf chwaith, h.y. nid yw'n ymgysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr cwmni. Yn lle hynny, maent yn defnyddio ffynonellau data allanol i olrhain ymddygiad a diwylliant rheoli, tra'n penodi **ymgynghorydd dirprwy** i wella eu proffil perchnogaeth weithredol. Byddwn yn parhau i fonitro'r proffil sgorio ac rydym yn awyddus i ddeall sut gellir gwella dealltwriaeth o ESG drwy ddefnyddio technegau newydd fel prosesu iaith naturiol.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Newid yn yr Is-gronfa Twf Byd-eang**

Ar ôl sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru, lansiwyd dwy Is-gronfa ecwiti byd-eang, Twf Byd-eang a Chyfleoedd Byd-eang. Ar y pryd, cymerwyd y penderfyniad i lansio'r cronfeydd hyn drwy ddulliau gwahanol:

1. Lansiwyd Twf Byd-eang ar sail ymgynghorol, sy'n golygu mwy o fewnbwn gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfansoddiad a newidiadau'r Is-gronfa, gyda Waystone yn darparu'r gwasanaethau Gweithredwr a goruchwyliaeth rheolwr buddsoddi;
2. Lansiwyd Cyfleoedd Byd-eang gan gymryd dull anymgynghorol, lle byddai mwy o ddirprwyaeth yn cael ei rhoi i Russell o ran rheoli'r Is-gronfa a newidiadau iddi.

Ar ddechrau 2024, cymerwyd y dull anymgynghorol yn achos wyth o'r 10 Is-gronfa, tra bo Credyd Sterling a Thwf Byd-eang wedi cymryd y dull ymgynghorol. Wrth ystyried a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i reolwyr ar Dwf Byd-eang, penderfynodd Swyddogion edrych yn fwy cyfannol ar weithrediad cyffredinol yr Is-gronfa ac ystyried a fyddai'n briodol dod â Thwf Byd-eang o dan y trefniant anymgynghorol gyda Russell IM, yn unol â'r ddwy Is-gronfa ecwiti byd-eang arall.

Lluniodd Russell IM nifer o bortffolios dangosol yn seiliedig ar ofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru, a oedd yn cynnwys: parhau i ddefnyddio nifer penodol o reolwyr; cael nodweddon sy'n ategu'r Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang; ystyried galluoedd ESG rheolwyr; ystyried costau newid.

Mae'r datrysiad yn mabwysiadu llawer o'r nodweddion cadarnhaol mae Russell yn eu harddel wrth adeiladu Is-gronfeydd, gan gynnwys optimeiddio rheolwyr a defnyddio troshaenau i gydbwyso gwahaniaethau rhanbarthol. Roedd hefyd yn cael ei ystyried yn synhwyrol o safbwynt llywodraethu, yn yr ystyr byddai'r datrysiad arfaethedig yn:

- Symleiddio llywodraethu ar draws holl Is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru sydd â mwy nag un rheolwr
- Cynnal (neu gynyddu) priodoleddau Buddsoddi Cyfrifol o gymharu â'r dull cyfredol
- Cyflawni arbedion ffi blynyddol

Digwyddodd y newidiadau gweithredol ddiwedd 2024 a byddwn yn darparu mwy o fanylion yn ein hadroddiad nesaf, gan y bydd y newidiadau wedi bod ar waith ers tro erbyn hynny.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Newid rheolwr yn yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy**

Lansiwyd yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn Haf 2023, gyda tharged sero net penodol a nifer o nodweddion cynaliadwyedd sylfaenol yn rhan o'r dyluniad (gan gynnwys meini prawf gwaharddol). Dyluniwyd yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn wreiddiol gyda phump o reolwyr sylfaenol.

Dros y flwyddyn adrodd, fe fu newid o ran personél un o strategaethau ecwiti effaith sylfaenol yr Is-Gronfa. Yn rhannol, y rheswm dros gynnwys yr adran oedd integreiddio'r asesiadau effaith yn llawn i'r broses ymchwil. Gan fod cynllunwyr gwreiddiol y datrysiad wedi gadael, teimlai ein darparwr datrysiadau y byddai newidiadau sylweddol yn perthyn i'r athroniaeth sylfaenol a'r dewisiadau hoff o ran cynaliadwyedd, a fyddai'n golygu llai o wahaniaethu a symud tuag at ddull mwy ymwybodol o feincnod. O ystyried y newidiadau sylweddol disgwyliedig hyn, penderfynwyd tynnu'r mandad o'r Is-gronfa, ac, yn lle hynny, ailddyrannu'r swm cymharol fach i ddwy o'r pedair adran bresennol.

Mae hyn wedi amlygu ymagwedd ragweithiol Russell IM at oruchwyliaeth rheolwyr, gyda'r newyddion yn dod ym Medi 2025 fod y gronfa wedi cau, o ystyried ei thanberfformiad.

## Ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth

Mae ymgysylltu â'n rheolwyr penodedig ynghylch eu prosesau a, lle bo angen, asesu penodeion gwaelodol, yn elfen barhaus o'n trefn lywodraethu, gan sicrhau ein bod yn cadw hyder yn y rheiny sy'n rheoli ein hasedau.

Er ein bod, yn y gorffennol, wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'n holl Ddarparwyr Gwasanaeth, eleni fe sefydlom ddull mwy disgybledig lle clustnodwyd darparwyr yn benodol i drafod Buddsoddi Cyfrifol. Yn ogystal â thrafod manylion Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r rhain wedi bod yn gyfleoedd i drafod unrhyw ddiweddariadau cyffredinol am Fuddsoddi Cyfrifol, sy'n cynnwys diweddariadau/newidiadau marchnad a rheoleiddio, yn ogystal ag unrhyw ddiweddariadau busnes gan ein Darparwyr Gwasanaeth y dylem fod yn ymwybodol ohonynt. Gwnaethom ymdrin ag ystod o feysydd yn ein deialogau, gan gynnwys:

1. Newidiadau rheoleiddiol ac effaith rheoleiddio esblygol Comisiwn Gwarantau a Chyfnewid (SEC) yr Unol Daleithiau ar weithgarwch ymgysylltu presennol ac yn y dyfodol
2. Ymgysylltiadau ynghylch ardaloedd y mae gwrthdaro'n effeithio arnynt ac ardaloedd risg uchel (ardaloedd CAHRA)
3. Gweithredu ar y cyd ar yr hinsawdd a gwrthsefyll ESG

Rydym yn croesawu'r ddeialog barhaus i mewn i 2025/26 a thu hwnt, ac yn credu bod y ffocws cynyddol wedi gwella ein gallu i fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion Buddsoddi Cyfrifol.

## Mae RISG yn ymgymryd â goruchwyliaeth a chraffu

Wrth weithredu model wedi'i allanoli, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am graffu'n uniongyrchol ar Ddarparwyr Gwasanaethau allweddol, ac mae Russell a Waystone wedyn yn gyfrifol am oruchwylio'n uniongyrchol y rheolwyr gwaelodol a gyflogir o fewn yr Is-gronfeydd. Caiff risgiau cynaliadwyedd o bwysigrwydd ariannol eu monitro gan Russell a Waystone yn barhaus, fel yn achos unrhyw risgiau eraill. Mae archwiliadau chwarterol yn cael eu cynnal gyda rheolwyr y portffolio gan gyfeirio at risgiau ESG. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio prosesau Russell ar stiwardiaeth ac integreiddio ffactorau ESG.

Un o rolau parhaus yr Ymgynghorydd Goruchwylio yw asesu rheolaeth yr Is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir. Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, mae Hymans Robertson yn ymgymryd ag asesiad annibynnol o bob portffolio, gan dynnu sylw at feysydd cyfanredol ac unigol o risg i RISG. Caiff pob Is-gronfa ei hadolygu'n flynyddol, gydag o leiaf ddau adroddiad yn cael eu darparu (gan gwmpasu o leiaf ddwy Is-gronfa) bob chwarter i sicrhau bod disgwyliadau buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu bodloni.

Mae'r gwaith monitro yn cwmpasu: risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys tueddiadau mewn allyriadau carbon a risgiau cysylltiedig ag ESG, sy'n cynnwys bod yn agored i faterion dadleuol. Eleni fe gymerom ymagwedd gyfannol at adrodd. Yn hytrach na chanolbwyntio ar fetrigau sy'n edrych yn ôl yn unig, rydym wedi dechrau cynnwys dangosyddion blaengar ynghylch cysoni pontio, gan gynnwys o fewn sectorau materol yn benodol. Rydym hefyd yn parhau i adrodd ar y cwmnïau hynny sy'n cael refeniw o danwydd ffosil, ond gan amlygu'r dyroddwyr hynny yn y categori hwnnw sydd hefyd yn cael refeniw o ddatrysiadau gwyrdd. Mae'r mewnbynnau hyn yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r sgôr Menter Llwybr Pontio ac ymgysylltu Gweithredu ar Newid Hinsawdd 100+ (CA100+) i dynnu sylw at ddyroddwyr unigol a fyddai'n elwa ar ymgysylltu a chraffu â rhagor o ffocws. Bellach rydym hefyd yn adrodd ar allyriadau cwmpas-3 ac yn tynnu sylw at achosion lle mae'r rhain 'upstream' (h.y. cyflenwi deunyddiau mewnbynnu); ar gyfer sectorau a dyroddwyr unigol, ac mae hyn helpu i amlygu ble byddem yn disgwyl i stiwardiaeth fod yn digwydd (h.y. ble o fewn y gadwyn werthoedd y gall datgarboneiddio fod ar ei fwyaf effeithiol).

## ASTUDIAETH ACHOS:


### Adrodd effaith


Gan gydnabod ein ffocws cynyddol ar fuddsoddiad lleol ac effaith leol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymgysylltu, ac, ers diwedd y flwyddyn, ymrwymo i'r Economi Dda, ar gyfer cynhyrchu adroddiad effaith seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar yr holl asedau a ddelir gan gronfeydd partner.


Bydd y darn hwn o waith yn cefnogi ymdrechion yr ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol o ran cronni. Ar gyfer y Gronfa Gyfunol, fel rhan o'r trefniadau newydd, rhaid yw gwneud unrhyw waith diwydrwydd dyladwy angenrheidiol ar gyfleoedd buddsoddi lleol a gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid buddsoddi a sut i reoli'r buddsoddiadau hynny. Hefyd bydd angen i gronfeydd cyfunol adrodd yn flynyddol ar gyfanswm y buddsoddiadau lleol a wneir ar ran eu cronfeydd partner (a'u heffaith).

Bydd yr Economi Dda yn casglu data gan reolwyr aml-gronfeydd ar draws gwahanol ddosbarthiadau asedau, ond yn adrodd ar y rhain mewn ffordd safonol, gan ddeall faint sydd wedi cael ei fuddsoddi a beth y buddsoddwyd ynddo, ac, yn hollbwysig, lle gwnaed y buddsoddiadau hyn. Dylai hyn wedyn roi gwybodaeth am y graddau y mae buddsoddiadau'n cyflawni cyfraniadau (yn enwedig cyfraniadau uniongyrchol yng Nghymru) i feysydd effaith dethol, gan gynnwys tai fforddiadwy, adfywio, seilwaith, ynni glân, cyfalaf naturiol, swyddi a thwf busnesau.

Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn defnyddio'r adroddiad cychwynnol i ddarparu gwaelodlin ar gyfer gweithgaredd pellach.




**Ffynhonnell:** The Good Economy November 2024

## ASTUDIAETH ACHOS:

### Heriau data

Un maes yr ydym wedi bod yn awyddus i wneud cynnydd arno yw data: ei synthesis, a sut i'w ddefnyddio'n fwy effeithiol ar gyfer monitro, dadansoddi ac adrodd yn well. Mae sawl maes lle gellir mynd i'r afael â hyn. Rydym yn dibynnu ar ddata ar lefel cwmni a'i gyfuno. Mae'r Bartneriaeth Pensiwn Cymru gyntaf yn mynd i'r afael â materion trwy stiwardiaeth, gan ymgysylltu â chwmnïau i fod yn fwy tryloyw wrth ddatgelu data. Ac mae disgwyliad y bydd y datgeliadau hyn yn dilyn safonau datgelu neu adrodd cynaliadwyedd i sicrhau cysondeb a chymhariaeth, felly pethau fel y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr (GHG), neu safonau adrodd fel TCFD a TNFD. Mae yna hefyd elfen ymgysylltu ar lefel polisi yma; er enghraifft, ymgysylltu â gofynion adrodd fel (Safonau Adrodd Cynaliadwyedd y DU) i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion buddsoddwyr. Er mwyn i fuddsoddwyr gael mynediad at wybodaeth a'i defnyddio i wneud unrhyw fewnwelediad ystyrlon, rydym wedyn yn dibynnu ar ddarparwyr data trydydd parti i goladu cronfeydd data. Mae dwy her benodol yn codi: (1) gormodedd o ddata (sut rydym yn defnyddio'r ffynonellau data gorau, sut rydym yn cyfuno'r data, sut rydym wedyn yn ei ddefnyddio i greu dealltwriaeth ystyrlon); (2) anghysondeb / diffyg data (os ydym yn derbyn metrigau gwahanol gan wahanol reolwyr neu ddosbarthiadau asedau, sut y gellir eu cipio ac adrodd arnynt, sut gallwn sicrhau bod rheolwyr yn cael pwyntiau data perthnasol). Mae'r ail her yn un hynod gyson o ran marchnadoedd preifat, yn enwedig lle nad oes yr un pwysau rheoleiddiol ag y mae cwmnïau cyhoeddus yn ei wynebu. Felly, mae buddsoddwyr yn dibynnu ar reolwyr ac ymgynghorwyr am y data hwn.

Cawsom drafodaethau amrywiol gyda sawl darparwr gwasanaeth (gan gynnwys ein Hymgynghorydd Goruchwylio a'n Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu), yn ogystal â thrydydd partïon dros y flwyddyn, i ddeall pa ddatrysiadau allai fod ar gael yn y farchnad a sut gallwn ddatblygu ein gallu yma. Rydym yn gobeithio gwneud cynnydd yn y maes hwn dros 2025 a 2026.

## Darparwyr Gwasanaethau a stiwardiaeth

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau monitro ac ymgysylltu Darparwyr Gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn unol â'n disgwyliadau, rydym yn olrhain ein hymgysylltu â Russell, Robeco, BlackRock a darparwyr eraill. Rydym hefyd yn cynnal cofnod parhaus o unrhyw sylwadau neu bryderon sydd wedi cael eu codi gan aelodau neu randdeiliaid eraill a'u cyflwyno yn unrhyw gyfarfodydd rheolaidd (yn fwyaf arbennig RISG). Ymhlith y sgyrsiau dros y cyfnod adrodd yr oedd:

- Robeco, Russell, BlackRock: Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru eisiau deall sut gall newidiadau SEC effeithio ar stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru o ddyroddwyr yr Unol Daleithiau yn y dyfodol. Fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru, fe wnaethom gyfarfod â Robeco yn y lle cyntaf, gan gynnwys eu Pennaeth Pleidleisio. Roedd y rhagolwg cyffredinol, er yn ansicr, yn gadarnhaol. Dywedodd Robeco fod y newid yn y rheol SEC yn effeithio'n bennaf ar y graddau y gallwn gynyddu ymgysylltiad, yn hytrach nag atal y perthnasoedd adeiladol a'r deialogau y mae perchnogion asedau yn eu datblygu gyda chwmnïau. Teg yw dweud bod ymgysylltu yn yr Unol Daleithiau yn debygol o droi'n anoddach, yn enwedig o ran ffeilio cynigion cyfranddalwyr (yn enwedig yn y tymor byr uniongyrchol yn dilyn y newidiadau). Am y tro, mae Robeco yn credu mai'r effaith debygol fydd llai o benderfyniadau ond rhai o ansawdd gwell, a mwy o ofal o ran datgeliadau a chydweithredu.

  Fe wnaethom hefyd drafod y rhagolygon yn yr Unol Daleithiau gyda Russell yn ein cyfarfod Buddsoddi Cyfrifol chwarterol, lle maent yn yr un modd yn rhagweld mwy o ffocws ar lywodraethu ac (o leiaf dros dymor dirprwyo 2025) ddirywiad mewn cynigion amgylcheddol a chymdeithasol.

  O ystyried y trafod parhaus am gael stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru i gefnogi'r datrysiad goddefol, cawsom sawl cyfarfod gyda phersonél perthnasol yn BlackRock i weld a fyddai unrhyw effaith ar bleidleisio yn benodol. Cadarnhaodd Blackrock na fyddai unrhyw oblygiadau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru o ran cyfranddaliadau pleidleisio nac ymgysylltu â dyroddwyr o'r Unol Daleithiau. O safbwynt BlackRock, mae'r defnydd o Ddewis Pleidleisio yn y bôn yn gwaredu'r awdurdod pleidleisio sydd gan BlackRock ar gyfranddaliadau, beth bynnag y berchnogaeth fuddiol, ac mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgysylltu. Yr unig gafeat yw na fyddai Partneriaeth Pensiwn Cymru wedyn yn gallu rhoi cyfarwyddyd i Blackrock ymgysylltu

hefyd ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Rydym yn gyfforddus â'r sylw dyledus y mae pob un o'n darparwyr gwasanaeth yn ei roi i'r cyd-destun gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau, a byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar hyn lle bo'n briodol.

- Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cydweithredol: mae'r duedd 'wrth-ESG' yn yr Unol Daleithiau - lle mae darparwyr data, perchnogion asedau a rheolwyr buddsoddi wedi derbyn nifer fawr o geisiadau am wybodaeth gan daleithiau 'coch', yn ogystal â bygythiadau ymgyfreitha - hefyd wedi effeithio ar nifer o fentrau gweithredu ar newid hinsawdd cydweithredol yn fyd-eang, gan gynnwys CA100+ a'r fenter Rheolwyr Asedau Sero Net (NZAMi). Yn ein hawydd i ddeall unrhyw effeithiau ar ein darparwyr gwasanaeth, cysylltom â'n rheolwyr buddsoddi'n uniongyrchol. Yn dilyn ein sgyrsiau, cawsom sicrwydd na fyddent yn mynd nôl ar eu gair o ran eu hamcanion cysylltiedig â'r hinsawdd, a'u bod yn cymryd camau i gynyddu capasiti o ran stiwardiaeth hinsawdd yn fewnol ac i barhau i ganolbwyntio ar reoli risg hinsawdd fel risg ariannol gynhenid o fewn portffolios. Rydym yn parhau i fonitro ac ymgysylltu â'n holl ddarparwyr gwasanaeth i sicrhau bod ein hymrwymiadau polisi a'n hamcanion Buddsoddi Cyfrifol yn cael eu bodloni.
- Cyfarfodydd anffurfiol ar ôl y Cyd-bwyllgor Llywodraethu: Un maes roeddem am ei ehangu dros y flwyddyn oedd ein hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Er mai cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yw'r fforwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi a chael gwybod am waith parhaus, yn ddiweddar trefnom gyfarfodydd ar ôl y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a fyddai'n caniatáu trafodaethau mwy anffurfiol ynghylch meysydd gwaith nad oeddent eto wedi'u cwblhau. Mae'r rhain wedi bod yn fodd o drafod diweddariadau ynghylch gofynion cronfeydd cyfunol, yn ogystal â phynciau stiwardiaeth amrywiol, gan gynnwys gweithredu ein polisi uwchgyfeirio, a thrafodaethau ynghylch dadfuddsoddi ac osgoi. Bellach mae'r cyfrwng hwn wedi ennill ei blwyf fel ffordd y gall aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, Swyddogion, Ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru godi ymholiadau a gwneud cynnydd o ran meysydd ffocws.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**goruchwylio mewn marchnadoedd preifat**

Fel rhan o'n Polisi Buddsoddi Cyfrifol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i gymwysterau Buddsoddi Cyfrifol ei Reolwyr Buddsoddi gael eu hadolygu ac i hyn gael ei adrodd bob blwyddyn o leiaf. Ar gyfer yr Is-gronfeydd rhestredig, mae Russell a Waystone yn gwneud gwerthusiad parhaus o reolwyr trwy gydol y flwyddyn, gyda'r canfyddiadau hynny'n cael eu hadolygu a'u rhannu â Swyddogion. Ar gyfer rhaglenni'r farchnad breifat, a lansiwyd dros y flwyddyn ac nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan Waystone, mae'r Bartneriaeth wedi ceisio sefydlu deialog barhaus gyda'r rheolwyr hyn, ac i sefydlu fframwaith ar gyfer yr adolygiad cyfnodol o bob rheolwr marchnad breifat. Mae'r fframwaith yn ymgorffori elfennau cyffredinol ar lefel endid, yn ogystal â materion sy'n berthnasol i bob dosbarth asedau ac yn archwilio sut mae rheolwyr yn mynd i'r afael â meysydd sydd o ddiddordeb i'r Bartneriaeth: natur; newid yn yr hinsawdd; hawliau dynol.

Ar ôl cwblhau ein fframwaith goruchwylio marchnadoedd preifat, mae ein hadroddiadau goruchwylio wedi'u rhannu gyda RISG. Maent wedi'u strwythuro i roi:

1. trosolwg eang o ystyriaeth Buddsoddi Cyfrifol y rheolwyr marchnadoedd preifat ar y lefel cwmni ehangach. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau ynghylch llywodraethu, newid hinsawdd, natur a hawliau dynol (a'n disgwyliadau o ran 'beth yw da' yn achos rheolwyr yn gyffredinol);
2. Sylw manwl i reolwyr a all ddangos enghreifftiau o sut mae'r rheolwr yn cynnwys newid hinsawdd, natur a hawliau dynol yn ei brosesau;
3. Manylion dosbarth asedau sy'n rhoi sylw i ddisgwyliadau Buddsoddi Cyfrifol a all fod yn unigryw i ddosbarthiadau asedau penodol. Er enghraifft, o fewn dyled breifat, rydym yn disgwyl, lle defnyddir cliciedau ESG, fod y rheolwr yn ymwybodol o'r gwrthdaro a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gliciedau cysylltiedig ag ESG. Mae'r rhain yn cael eu holrhain ac adroddir arnynt, a chymerir camau i sicrhau cysondeb gwybodaeth rhwng yr ased a'r buddsoddwr. O fewn buddsoddiadau eiddo, gall fod yn ddisgwyliedig bod y rheolwr yn defnyddio fframweithiau a fabwysiadwyd gan y diwydiant i olrhain ei allyriadau a gosod targedau datgarboneiddio.

Mae'r mewnbynnau hyn yn sail i ddeialog barhaus gyda'n darparwyr a gobeithio gallant ein helpu i gael ffocws o ran ein hymgysylltu.

# MYND I'R AFAEL Â RISGIAU SYSTEMIG

Mae dull buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys rheoli risg yn effeithiol, sydd yn ein barn ni yn rhan annatod o lywodraethu da. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol – gan gynnwys strategaethau Buddsoddi Cyfrifol a lliniaru risg hinsawdd, ochr yn ochr ag ystyried a rheoli materion ESG ehangach – yn hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'n rhanddeiliaid. Mae dwy broses ar waith ar gyfer ystyried risg.

## Mae ein His-grŵp Risg yn fforwm allweddol ar gyfer nodi risgiau

Yn unol â'r Polisi Risg, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod, os cânt eu gadael heb eu rheoli, y gall risgiau effeithio ar allu'r Bartneriaeth (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) i weithredu er budd pennaf ein rhanddeiliaid (a'r buddiolwyr), gyda llwyddiant y Bartneriaeth, i raddau, yn ddibynnol ar ein gallu i gydbwyso risg ac elw yn effeithiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru felly'n cydnabod bod yn rhaid i strategaeth risg gadarn fod ar waith er mwyn cyflawni ein prif amcanion, gydag Is-grŵp Risg pwrpasol wedi'i sefydlu i gynnal a gwerthuso Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter. Defnyddir y Gofrestr Risg i ddogfennu, rheoli a monitro risg trwy:

- Outlining WPP's key risks and factors that may limit our ability to meet objectives
- Quantifying the severity and probability of the risk facing WPP
- Summarising WPP's risk-management strategies
- Monitoring the ongoing significance of these risks, the effectiveness of existing risk-mitigation strategies and the requirement for further risk-mitigation strategies

Mae gan yr Is-grŵp Risg rôl hanfodol wrth fynd ati i nodi'r risgiau presennol a'r rheiny a allai gael eu gwireddu yn y dyfodol, ac wrth asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru risg presennol – neu'r gofynion am fesurau ychwanegol o'r fath. Mae'r Is-grŵp Risg yn cyflwyno argymhellion, i'r Gweithgor Swyddogion, ar y camau y dylid eu cymryd i liniaru neu reoli risgiau ymhellach, ond nid yw'n gyfrifol am gyflawni'r camau a argymhellir.

## Ein Fframwaith Stiwardiaeth wrth adnabod risgiau a themâu sy'n dod i'r amlwg




Un ffordd yr ydym yn ceisio adnabod risg yw drwy ddefnyddio ein Fframwaith Stiwardiaeth, yr ydym yn ei amlinellu'n nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae cam cyntaf y broses hon yn hollbwysig, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i asesu meysydd risg sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys: themâu sy'n deillio o fonitro parhaus; mewnbwn gan y gymuned fuddsoddi ehangach; ac ymchwil bwrpasol arall. Trwy rannu mewnbwn gyda, a cheisio adborth gan, y sylfaen ehangach o randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru, bydd y Bartneriaeth yn casglu ystod eang o fewnbynnau a ffynonellau risg systemig posibl. Fel rhan o'r ymarfer hwn yn 2024/25, un maes a nodwyd gennym fel un lle mae angen mwy o dryloywder oedd ymgysylltiad polisi (gyda sofraniaid a rheoleiddwyr) a'r angen i gyfrannu at drafodaethau ehangach ar reoleiddio. Rydym yn tynnu sylw at ein cyfranogiad yn y Datganiad Buddsoddwyr ar gyfer Llywodraethau isod.

# Newid yn yr Hinsawdd

Fel rhan o'r drefn fonitro barhaus, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro ystod o wahanol fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys metrigau allyriadau. Mae'r tabl isod yn nodi'r newid mewn dwysedd carbon cyfartalog pwysau (WACI) ac ôl troed carbon dros 2024/25, gan nodi bod gostyngiad cyffredinol am i lawr wedi bod ar draws yr holl Is-gronfeydd. Rydym yn nodi cynnydd penodol o fewn yr Is-gronfa Credyd Byd-eang. Fel rydym eisoes wedi dweud, rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy newid rheolwyr o fewn y portffolio.

| Is-gronfa | WACI (gwerthiannau $tCO_2e$/$m) | | Ôl Troed Carbon (tCO2e/$m EVIC) | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/2024 | 31/03/2025 | 31/03/2024 | 31/03/2025 |
| Cyfleoedd Byd-eang | 88.3 | 79.1 | 63.0 | 52.8 |
| Twf Byd-eang | 51.3 | 51.7 | 24.5 | 24.7 |
| Cyfleoedd y DU | 59.5 | 54.1 | 47.1 | 43.1 |
| Marchnadoedd Datblygol | 165.3 | 140.6 | 101.9 | 80.4 |
| Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | 69.6 | 71.3 | 47.2 | 39.5 |
| Credyd Byd-eang | 203.6 | 232.5 | 78.1 | 87.3 |
| Credyd Sterling | 33.8 | 29.6 | 15.3 | 11.5 |

**Ffynhonnell:** Hymans Robertson. I nodi, mae'r cwmpas ar gyfer y metrigau hyn yn uchel ar y cyfan (>90%); er yn is yn y ddwy Is-gronfa gredyd (o leiaf 67%). Dim ond cwmpas ôl troed 2024 ar gyfer Credyd Sterling sy'n isel (>40%).

## Rhestr sydd â ffocws ar yr hinsawdd

Un o'r argymhellion a ddaeth allan o'r Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd adeiladu rhestr o gwmnïau y gellir craffu arnynt yn haws o safbwynt yr hinsawdd, gan helpu yn ymdrechion stiwardiaeth hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ei chyfansoddiad, diweddarom y rhestr i gynnwys pedwar dyroddwr arall, i gyd-fynd â disgwyliadau ein cronfeydd partner gwaelodol. Yn y rhestr y mae dyroddwr asedau go iawn sy'n ymwneud yn benodol â chynhyrchion coetir a choedwigaeth. Cysylltom â'n rheolwr buddsoddi i ddeall pam roedd y dyroddwr hwn, a gwneuthurwr dur sydd eisoes ar y rhestr ffocws hinsawdd, wedi'u cynnwys yn yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. O ran y cwmni coedwigaeth, dywedodd y rheolwr fod y cwmni'n arwain y ffordd o ran ymdrechion i wella defnyddioldeb coed fel sinciau carbon, gan gefnogi lliniaru newid hinsawdd, a darparu deunydd sy'n llai dwys ei garbon na deunyddiau eraill fel concrit. Mae portffolio coetir cyfan y cwmni wedi'i ardystio gan y Fenter Coedwigaeth Gynaliadwy, ac fel arfer mae'n plannu dwy goeden am bob un sy'n cael ei thorri. Roedd yr enw wedi'i nodi ar gyfer amlygiad glo thermol, ond cawsom sicrwydd bod hynny'n rhan o gaffaeliadau coetir cyfreithiol, ac nad oedd yn tyfu yn y maes hwnnw, ond yn hytrach dadfuddsoddi.

O ran dur, rydym yn cydnabod ei fod yn ddeunydd hanfodol ar gyfer cymdeithas fyd-eang, ac, yn fwy penodol, fod ei angen mewn seilwaith i gefnogi trawsnewid yr hinsawdd. O ystyried nad oes cyflenwad digonol o ddur wedi'i ailgylchu i fodloni gofynion byd-eang, bydd angen cynhyrchu dur cynradd am ddegawdau i ddod. Felly, mae hwn yn ddiwydiant hanfodol, y mae angen iddo drawsnewid, gyda'r cwmni penodol hwn yn arwain cymheiriaid wrth drawsnewid ei fusnes, gan gynnwys cefnogi mentrau byd-eang ar ddatgarboneiddio. Yn wir, ar ôl diwedd y flwyddyn, roeddem yn falch o weld sesiwn ymgysylltu yn cael ei chynnig gan reolwr y cwmni i roi dealltwriaeth o ddatgarboneiddio o fewn y diwydiant dur (lle mae'n anodd lleihau allyriadau carbon) yn fwy cyffredinol.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Goleuadau traffig hinsawdd**


Fel yr ydym wedi dangos, mae integreiddio a chyfuno data yn faes sy'n datblygu'n barhaus i fuddsoddwyr. Roeddem yn falch o weld ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu yn rhyddhau ei ddata goleuadau traffig hinsawdd fel ffynhonnell agored. Mae'r data wedi cael ei ddefnyddio o fewn Robeco i lywio gwaith rheoli buddsoddiadau a stiwardiaeth (gan gynnwys y canllawiau pleidleisio drwy ddirprwy). Fodd bynnag, mae hyn bellach ar gael yn gyhoeddus ac mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan academyddion i lywio eu gwaith. Er bod y fframwaith hwn wedi bod ar waith ers peth amser, rydym hefyd yn falch o weld fframweithiau newydd yn cael eu datblygu (gyda goleuadau traffig) a fydd yn mynd i'r afael â materion dadleuol a materion cymdeithasol.

# Natur

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod colli natur yn risg systemig, gan nodi agweddau cydgysylltiedig newid hinsawdd, datgoedwigo a bioamrywiaeth. Y llynedd, bu i'n dadansoddi argymell gwneud natur yn rhan o fframwaith hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru, datblygu ymrwymiadau polisi ehangach i natur, ac ymgorffori ystyriaethau natur yng ngoruchwyliaeth stiwardiaeth y Bartneriaeth. Mae'r holl argymhellion hyn bellach wedi'u cynnal, ond un elfen fydd ar ôl fydd adrodd ar natur yn ein hadroddiadau risg hinsawdd ac ESG rheolaidd, y mae angen i ni wneud cynnydd arni o hyd.

Wedi dweud hynny, rydym yn parhau i adrodd i RISG ar ein cysylltiad â datgoedwigo ac i gynnal deialog agored gyda Maint Cymru ar hyn. I ehangu'r dadansoddi hwn, fe wnaeth adroddiad eleni hefyd gynnwys data MSCI, yn ychwanegol at set ddata Forest500. Roedd ein dadansoddi wedi'i gyfyngu i gyfran ecwiti gweithredol buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, lle roeddem yn falch o weld ychydig yn llai o gysylltiad â datgoedwigo sy'n cael ei yrru gan nwyddau yn erbyn y farchnad ecwiti ehangach (fel y'i mesurwyd gan yr MSCI ACWI). Rydym hefyd yn nodi gostyngiad cyffredinol mewn cysylltiad â datgoedwigo o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (wrth gymharu data Forest500):

**Year-on-year comparison of Forest 500 data**




Ffynhonnell: Hymans Robertson

## ASTUDIAETH ACHOS:

### Robeco: cynyddu'r sylw ar hinsawdd a natur

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pontio hinsawdd ariannol – ac, yn fwy penodol, eu hallyriadau a ariennir – wedi mynd yn fwyfwy perthnasol, yn bennaf oherwydd eu rôl amlwg yn hwyluso pontio carbon isel. Mae sefydliadau ariannol wedi wynebu pwysau cynyddol gan gleientiaid a buddsoddwyr sy'n cefnogi datgarboneiddio portffolios. O ganlyniad, lansiodd Robeco thema Pontio Hinsawdd Sefydliadau Ariannol ar ddechrau 2021. Yn ymarferol, roedd ffocws cynyddol Robeco ar natur a bioamrywiaeth yn cael ei weld fel risg ariannol (a rhyng-gysylltiedig) arall. Felly, o ddechrau 2024, ehangodd Robeco y thema i gynnwys hinsawdd a natur yn ei ymgysylltiad â chwmnïau ariannol. Drwy hyn mae canllawiau'r TNFD wedi cael eu cynnwys a bydd yn cynnwys targedau fel: ymroi i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth; ymroi i ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau; a chydweithio â chymunedau lleol yr effeithir arnynt gan ariannu prosiectau.

## ASTUDIAETH ACHOS:

### Ymgysylltu gwell ar olew palmwydd

Yn 2019, dechreuodd Robeco raglen ymgysylltu (uwch) gyda chwmnïau am olew palmwydd, gan dargedu'n benodol y cynhyrchwyr hynny lle roedd tir a ardystiwyd o dan y Bwrdd Crwn ar Olew Palmwydd Cynaliadwy (RSPO) rhwng 50-80%. Er ei fod yn nwydd angenrheidiol yn economaidd mewn nifer o economïau sy'n datblygu, mae cynhyrchu olew palmwydd yn gysylltiedig â datgoedwigo a cholli bioamrywiaeth, yn ogystal â chyflwyno risgiau i gymunedau lleol a gweithwyr. Felly, roedd rhaglen ymgysylltu Robeco yn targedu nifer o amcanion penodol: rheoli amgylcheddol, gan gynnwys diogelu ardaloedd uchel eu gwerth o ran cadwraeth a choedwigoedd â stoc carbon uchel; rheoli cymdeithasol, gan gynnwys hawliau gweithwyr, a chydsyniad rhydd, ymlaen llaw a gwybodus gan gymunedau lleol a brodorol; tryloywder o ran llywodraethu ac adrodd; materion dadleuol a rheoli rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgysylltu â thyddynwyr a'u cynnwys mewn cadwyni cyflenwi; a rhoi cynlluniau rheoli ar waith i gyrraedd man lle mae 100% o'r tir wedi'i ardystio gan RSPO. Roedd yr ymgysylltu'n gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o gwmnïau'n gwneud cynnydd yn erbyn yr amcanion. Cafodd dau gwmni eu gwahardd am beidio â chyrraedd trothwy ardystio RSPO o 80%, er i un dderbyn cyfnod o ras gan ei fod wedi dangos ymrwymiad i'r achos. Mae'r thema ymgysylltu hon bellach yn cael ei hehangu yn hytrach na'i chau, i ganolbwyntio ar nwyddau sy'n peryglu coedwigoedd yn fwy cyffredinol (soi, cynhyrchion cig eidion, mwydion a phapur). Bydd yr ymgysylltu'n mynd i'r afael â chwmnïau sy'n hynod agored i risg o'r fath ac yn targedu'r cwmnïau hynny sydd heb bolisi datgoedwigo neu sydd â dadleuon difrifol yn perthyn iddynt.

#### REA Holdings

Nododd Robeco REA Holdings fel enghraifft dda o arweinyddiaeth gref o ran cynaliadwyedd. Mae REA wedi dod i'r amlwg fel arweinydd yn y diwydiant, gan ragori ar drothwy ardystio 80%-RSPO a chydymffurfio â Rheoliad Datgoedwigo yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynhyrchydd hefyd wedi gweithredu rhaglen Smallholder Inclusion for Ethical Sourcing, sy'n cefnogi 600 o dyddynwyr i gyflawni ardystiad RSPO. Mae'r cwmni wedi mabwysiadu fframwaith TCFD, wedi ymrwymo i dargedau SBTi, ac yn hyrwyddo diogelu bioamrywiaeth trwy ymchwil, gwrteithiau organig ac ymdrechion lleihau carbon.

## Risgiau geowleidyddol

Roedd risg geowleidyddol - gan gynnwys dwysáu yn y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, Rwsia/Wcráin, a thensiynau rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina - yn un o'r risgiau a gâi eu nodi amlaf ymhlith cyfranogwyr yn arolwg Banc Lloegr.

Mae Russell yn gwerthuso'n barhaus yr hyn y gallai mecanwaith trosglwyddo tebygol unrhyw ddigwyddiad geowleidyddol fod, ac yna'n ceisio mesur yr effaith ar bortffolios. Gwerthusir risgiau gwleidyddol o safbwynt risg buddsoddi ac o safbwynt risg weithredol. Asesir risgiau gwleidyddol mewn cyd-destun buddsoddi fel rhan o farchnad Russell Investments a phrosesau rheoli risg credyd, sy'n cynnwys profion straen cyfnodol a dadansoddi senarios, ynghyd â dadansoddi risgiau eraill. Yn achos dwysáu'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, ystyriodd Russell yr effaith debygol trwy gyfrwng marchnadoedd olew ac unrhyw effeithiau ar economïau go iawn. Rhyngweithiodd Russell ag is-ymgynghorwyr gwaelodol wrth i'r gwrthdaro godi, er, ar sail eu dadansoddiad, ni chymerodd unrhyw gamau uniongyrchol mewn perthynas â'r Is-gronfeydd dros y cyfnod adrodd. Hyd yn hyn, prin iawn yw'r effaith ar fuddsoddi sydd wedi deillio o'r digwyddiadau hyn.

Un maes sydd wedi peri pryder parhaus yw Tiriogaethau Meddianedig Palesteina a'r argyfwng dyngarol parhaus yno. Rydym yn amlinellu'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn sut rydym wedi bod yn ymgysylltu â chorfforaethau sydd â chysylltiadau â'r ardal, gan roi pwyslais penodol ar brosesau cryfach o ran diwydrwydd dyladwy. Roeddem hefyd yn awyddus i ddeall ble roedd ein cysylltiadau â'r ardal. Tra bo Waystone yn olrhain cysylltiad Partneriaeth Pensiwn Cymru â chwmnïau Israelaidd - ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa bresennol fel rhan o'i broses oruchwylio - roeddem ni am ddeall y cysylltiad ehangach.

Fel rhan o'n goruchwyliaeth, cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ddadansoddiad i ddeall y cysylltiadau, gan ddadansoddi daliadau yn erbyn tair ffynhonnell wahanol yr ystyrir eu bod yn ymwneud â Thiriogaethau Meddianedig Palesteina; ffynonellau sy'n cael eu hystyried yn rhai dilys a gaiff eu defnyddio gan bartïon eraill ar draws CPLlL at ddibenion tebyg. Mae dadansoddi o'r fath wedi rhoi sail i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu deialog gyda darparwyr ar gysylltiadau ac achosion ymgysylltu cyfredol, a darparu man cychwyn ar gyfer siarad am ddatblygu polisi. Gwnaed cynnydd o ran y gwaith hwn yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd, ac rydym yn gobeithio ymhelaethu ymhellach ar hyn yn ein cyflwyniad nesaf.



# GWEITHIO GYDA'N GILYDD

## Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid CPLlL eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gall cydweithio â buddsoddwyr a chyrff cynrychioliadol eraill o'r un anian wneud y mwyaf o ddylanwad asedau'r Bartneriaeth ar y cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Un maes o gydweithio uniongyrchol a wneir gan y Bartneriaeth yw trwy'r Grŵp Buddsoddi Cyfrifol ar Draws Cronfeydd Cyfunol. Mae'r grŵp yn cynnwys cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Loegr, Yr Alban a Chymru, ac mae'n cynnwys cronfeydd a gweithredwyr cronfeydd. Mae'r fforwm yn gyfle am drafodaethau rhwng buddsoddwyr Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gweithredu yn yr un amgylchedd rheoleiddiol a chyda disgwyliadau tebyg gan Awdurdodau Cyfansoddol a buddiolwyr ar faterion Buddsoddi Cyfrifol a materion ESG. Un pwnc o bwys rydym wedi ei weld yn anodd mynd i'r afael ag ef yw data a datgeliadau. Rydym wedi canfod cydgrynhoi ffynonellau data gwahanol yn effeithiol yn heriol, ynghyd â chyfuno'r rhain yn effeithiol i ddarparu adroddiadau a dadansoddi.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ynghyd â phob Awdurdod Cyfansoddol, yn aelod o LAPFF, sy'n ymgysylltu â chwmnïau ar ran ei holl aelodau. Rydym yn nodi bod cynrychiolydd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar Bwyllgor Gwaith LAPFF o hyd, gyda'r swydd honno'n newid dwylo ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae LAPFF yn fforwm ar gyfer cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a hwn yw'r fforwm ymgysylltu cydweithredol mwyaf i gyfranddalwyr yn y DU, ac mae'n ymgysylltu ar draws ystod eang o themâu ESG gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aelod cronfa o LAPFF ac mae'n bwydo mewn i'r cynllun gwaith ymgysylltu blynyddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manteisio'n uniongyrchol ar rybuddion pleidleisio LAPFF, sy'n cael eu bwydo i mewn i'n Polisi Stiwardiaeth. Mae gwybodaeth a gafwyd o ymgysylltu â LAPFF yn gosod sylfaen ar gyfer deialog a her barhaus i weithgareddau BlackRock, Russell a Robeco ei hun, gan sicrhau fod y trafodaethau yn adeiladol. Fel rhan o ddatblygiad cyfrifoldebau RISG, mae gan y grŵp hwnnw bellach gyfrifoldeb i herio'n uniongyrchol bolisi pleidleisio Robeco o blaid rhybuddion pleidleisio LAPFF.

### Cynrychiolydd ar Grŵp Ymgynghorol Buddsoddi Cyfrifol Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun

Wedi'i ffurfio yn 2019, mae Grŵp Ymgynghorol Buddsoddi Cyfrifol (RIAG) Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB) yn cyfarfod unwaith bob chwarter i drafod materion Buddsoddi Cyfrifol fel y maent yn berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi parhau i gael cynrychiolydd ar RIAG, lle mae wedi cyfrannu'n weithredol at amrywiol drafodaethau dros y flwyddyn, gan gynnwys ar:

- Effaith a thwf lleol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Ymagwedd at ddadfuddsoddi ac osgoi buddsoddi (gan gynnwys ar Diriogaethau Meddianedig Palesteina)
- Dyletswydd ymddiriedol (yn cynnwys barn ymgynghorol Nigel Griffin Cwnsler y Brenin)
- Cynllunio Pontio Sero Net o fewn CPLlL
- Ymgynghoriad ar y Côd Stiwardiaeth (2026)
- Addas i'r Dyfodol
- Adrodd Risg Hinsawdd (yn cynnwys dadansoddi senario)

### Panel Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol Robeco

Mynychom banel penodol ar gyfer CPLlL a drefnwyd gan Robeco ar ddiwedd 2024. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gleientiaid Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (cleientiaid ymgysylltu a buddsoddi) rannu eu hamcanion a'u blaenoriaethau ar gyfer y sector Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i Robeco fwrw golwg fanwl ar y gwaith mae wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn. Yn benodol, edrychom ar ehangu'r gwaith a wnaed ar yr hinsawdd, gan gynnwys ychwanegu amcanion hinsawdd at themâu ymgysylltu eraill, megis y rhai ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Dros 2025, amlinellwyd nifer o feysydd blaenoriaeth allweddol yr oedd Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn dadlau o'u plaid: ymgysylltiad polisi cyhoeddus (o safbwynt llywodraethu a hinsawdd a natur); gofal iechyd; hinsawdd a natur; hawliau dynol a sut i wneud y thema hon yn un fytholwyrdd. Un maes y mae Robeco wedi bod yn gweithio arno ac yn gobeithio ei wella yw priodoli effaith, h.y. a yw ymgysylltiadau'n cael effaith yn y byd go iawn. Mae gwaith wedi'i wneud ar hyn o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys trwy arolygu'r dyroddwyr yr ymgysylltir â nhw, ond mae Robeco yn gobeithio parhau i ddatblygu yn y maes hwn.

ASTUDIAETH ACHOS:

**datganiad buddsoddwyr i lywodraethau**

Un maes yn ein gwaith stiwardiaeth roeddem yn awyddus i'w ehangu dros y flwyddyn oedd ein hymgysylltiadau 'macro' (polisi). Felly fe wnaethom achub ar y cyfle i lofnodi Datganiad Buddsoddwyr Byd-eang 2024 i Lywodraethau ar yr Argyfwng Hinsawdd. Roedd hwn yn gyfle i gydweithio â pherchnogion asedau byd-eang eraill ar bolisi hinsawdd, gan gydnabod y rôl sydd gan fuddsoddwyr wrth lunio ac eirioli dros bontio sero net. Mae'r llythyr yn galw ar lywodraethau byd-eang i greu polisïau sy'n galluogi ac yn annog buddsoddiad sector preifat yn y pontio i economi sero net. Mae hyn yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael â hinsawdd a natur gyda'i gilydd, yr angen am ymagwedd ofalus wrth fynd i'r afael â gwahaniaethau sectorol, a'r gwahaniaethau rhwng economïau datblygedig ac economïau datblygol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae'r datganiad yn cyd-fynd â chredoau ac ymrwymiadau polisi Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac roeddem yn teimlo byddai ein cefnogaeth yn helpu i annog y gwaith o ddatblygu amgylchedd polisi sefydlog, sy'n canolbwyntio ar sicrhau pontio cyflym ond trefnus i economi carbon isel. Credwn fod hyn yn hanfodol i gorfforaethau a buddsoddwyr, gan ganiatáu gwneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor.

## Partneriaid allanol

Gan fod barn Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael yr effaith fwyaf posibl trwy flaenoriaethau a chydweithio cydfuddiannol yn cyd-fynd â barn Robeco, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n helaeth ar y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgymryd ag unrhyw gydweithrediadau perthnasol i'r diwydiant ar ein rhan ac i adrodd yn ôl ar unrhyw gynnydd. Mae Robeco yn mynd ati i gydweithio gyda'r canlynol:

- UN PRI
- Net Zero Asset Managers Initiative
- CA100+
- Taskforce on Nature-related Financial Disclosures
- Farm Animal Investment Risk & Return
- Business Benchmark on Farm Animal Welfare
- Finance for Biodiversity Pledge
- Cambridge Institute for Sustainable Leadership
- World Wide Fund for Nature Netherlands
- Institutional Investors Group on Climate Change
- Investor Mining and Tailings Safety Initiative
- Investor Policy Dialogue on Deforestation
- Powering Past Coal Alliance Finance principles
- Investor Alliance for Human Rights
- Platform Living Wage Financials
- Nature Action 100 (NA100)
- PRI SPRING
- PRI-led Collaborative Sovereign Engagement on Climate Change
- Global Commission on Mining 2030
- Finance Sector Deforestation Action (FSDA)
- Eumedion
- ACGA Korea Working Group
- Valuing Water Finance Initiative

## ASTUDIAETH ACHOS:

### BP

Bu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru gefnogi ymgysylltu cydweithredol rhwng Robeco a buddsoddwyr eraill gyda bp. Amlinellodd y llythyr i gadeirydd bp bryderon am ymrwymiadau hinsawdd y cwmni (gan gynnwys gwanhau targedau lleihau hydrocarbon) a gofyn am fwy o dryloywder ynghylch cynlluniau pontio bp - megis sut mae cyllidebau allyriadau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau newydd (gan gynnwys mewn tanwydd ffosil).

Roeddem wedi ein siomi yn ymateb bp i'r llythyr buddsoddwyr, wrth i'r cwmni fethu â mynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg 'Say on Climate' a methu â chynnig unrhyw beth newydd ar wariant cyfalaf (capex) a gwytnwch pontio. Mae pryderon yn parhau i gynyddu ynghylch y tynnu nôl sy'n digwydd o ran ymrwymiadau hinsawdd (gan gynnwys targedau dros dro ar gyfer pontio trefnus), ac felly uwchgyfeiriodd Robeco bryderon yn y lle cyntaf trwy bleidleisio, ar ein rhan, yn erbyn cadeirydd a chadeirydd y pwyllgor diogelwch a chynaliadwyedd.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gwrthwynebodd bron i chwarter y cyfranddalwyr, gan gynnwys PPC, ailbenodi'r cadeirydd (Helge Lunde), sef y tro cyntaf mewn 10 mlynedd i nifer mor fawr o gyfranddalwyr wneud hynny.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn elwa o'r ymdrechion stiwardiaeth dan arweiniad Russell Investments. Mae hyn yn cynnwys: mentrau ymgysylltu gan Russell; ei bartneriaeth â Sustainalytics, gan gefnogi pum thema allweddol (ehangiad ers y llynedd fel yr ydym yn nodi isod); ymgysylltiadau a gynhaliwyd gan Is-ymgynghorwyr o fewn portffolios Partneriaeth Pensiwn Cymru (yn unigol ac ar y cyd gyda Russell); a chydweithrediadau amrywiol yn y diwydiant mae Russel yn rhan ohonynt. Mae hyn yn elwa o ddull 'gweithredol dwbl', lle bydd Russell a'r Is-ymgynghorwyr gwaelodol yn ymgysylltu â dyroddwyr, gyda Russell yn monitro gweithgaredd Is-Gronfa yn fewnol trwy ei allu goruchwylio gwell.

**Er mwyn cynyddu effeithiolrwydd eu gwaith stiwardiaeth, ymgymerodd Russell IM â nifer o newidiadau:**

- **Darparu Adnoddau:** ehangu'r tîm perchnogaeth weithredol; erbyn hyn mae dealltwriaethau stiwardiaeth wedi'u hintegreiddio ymhellach i reoli portffolio trwy ymgorffori cyfrifoldebau ymgysylltu yn uniongyrchol o fewn yr is-adran fuddsoddi.
- **Technoleg:** uwchraddio ENACT, offeryn olrhain stiwardiaeth perchnogol Russell; mae hyn bellach yn cynnwys metrigau canlyniadau gwell a chymariaethau cymheiriaid. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i wella stiwardiaeth ac ymchwil.
- **Partneriaethau:** ehangu'r cwmpas thematig gyda Sustainalytics i gynnwys pontio sero net, bioamrywiaeth a risgiau cymdeithasol mewn marchnadoedd effaith uchel.
- **Themateg:** wedi cynnal adolygiad o'r strategaeth stiwardiaeth tair blynedd a chyflwyno dau faes blaenoriaeth newydd: AI a digideiddio; a hawliau dynol.

The engagement areas initiated by Russell cover a broad range of ESG themes, including:

- **E (Amgylcheddol):** y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd; rheoli cyfalaf naturiol
- **S (Cymdeithasol):** rheoli cyfalaf dynol; hawliau dynol
- **G (Llywodraethu):** Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol a digideiddio; cyfansoddiad y bwrdd; hawliau'r cyfranddalwyr; digolledu swyddogion gweithredol; tryloywder; Cydymffurfiaeth UNGC

Mae pum maes ymgysylltu penodol wedi cael eu cynnwys yn y bartneriaeth Sustainalytics:

| | |
|---|---|
| Biodiversity and Natural Capital | Aims to positively and materially address biodiversity loss and nature degradation. |
| Japan-Material Risk | Mitigating material ESG risks, particularly governance to protect shareholder value. |
| Net-Zero Transition | Helps companies adapt to regulations aligned with the Paris Agreement goals and the global movement toward net-zero greenhouse gas emissions by 2050 while mitigating investment portfolio climate risk. |
| Human Capital Management | Seeks to improve the management, measurement, and disclosure of talent strategies that drive performance and cultivate a healthy, engaged, and productive workforce, aligned with evolving trends. |
| **Human Rights Accelerator** | Aims to improve the adoption of globally agreed corporate standards for managing and promoting human rights. |

**Ffynhonnell:** Russell Investments, for illustrative purposes only.

## Ymgysylltu â phartïon eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, gan geisio ymgysylltu'n adeiladol lle bynnag y bo modd. Yn ystod y flwyddyn parhaodd Partneriaeth Pensiwn Cymru â'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â Chyfeillion y Ddaear Cymru i drafod dull a chynnydd y Bartneriaeth ynghylch buddsoddi cyfrifol (gan roi pwyslais ar yr hinsawdd yn benodol). Bu'r Bartneriaeth hefyd yn ymgysylltu â Maint Cymru ynghylch risg datgoedwigo, fel yr amlygir uchod. Ymatebodd Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd i ymgynghoriadau'r llywodraeth ar gyfuno cronfeydd (Addas i'r Dyfodol) a'r Côd Stiwardiaeth.

# STIWARDIAETH

## Fframwaith Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r Bartneriaeth yn defnyddio ei Fframwaith Stiwardiaeth fel sail ar gyfer ei hadolygiad stiwardiaeth blynyddol. Yn ogystal â nodi unrhyw fylchau stiwardiaeth posibl a risgiau sy'n datblygu, y gellir eu defnyddio i wella gwaith monitro ac adrodd, mae'r adolygiad blynyddol yn gwasanaethu dau brif ddiben: (1) ystyried a oes angen datblygu unrhyw un o themâu presennol y Bartneriaeth; (2) bwydo i mewn i banel cleientiaid Perchnogaeth Weithredol blynyddol Robeco, lle dewisir themâu stiwardiaeth newydd.

| Associated SDGs | 7. Affordable & clean energy | 13. Climate action | 6. Clean water & sanitation | 14. Life below water | 15. Life on land | 1. No poverty | 2. Zero hunger | 3. Good health & wellbeing |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Core theme | Climate Change | | Environment | | | Health & Wellbeing | | |
| WPP Stewardship theme | Focusing on net zero | | | | | Supporting people | | |
| Implementation – LAPFF | • Climate and Strategic Resilience<br>• Environmental Protection<br>• Fair and Just Transition | | • Climate and Strategic Resilience<br>• Environmental Protection<br>• Fair and Just Transition (ECE) | | | • Social Factors: Human Rights and Employment Practices | | |
| Implementation – Robeco | • Acceleration to Paris<br>• Climate and nature transition of financial institutions<br>• Just Transition in EM<br>• Net-zero carbon emissions<br>• Transition minerals | | • Biodiversity<br>• IPDD<br>• Nature Action 100<br>• Natural resource management<br>• Ocean health<br>• Deforestation<br>• Sound environmental management | | | • Hazardous chemicals | | |

SDG engagement | Global controversy engagement | AGM engagement | Sovereign engagement

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Associated SDGs | 4. Quality education | 5. Gender equality | 10. Reduced inequalities | 8. Decent work & economic growth | 9. Industry innovation & infrastructure | 11. Sustainable cities & communities | 12. Responsible consumption & production |
| Core theme | Diversity & Inclusion | | | Society & Community | | | |
| WPP Stewardship theme | Supporting people | | | | | | |
| Implementation – LAPFF | • Promoting Good Governance | | | • Social Factors: Human Rights & Employment Practices | | | |
| Implementation – Robeco | • Sound social management<br>• Human capital management | | | • Fashion transition<br>• Human rights DD for conflict-affected areas<br>• Labour practices in a post-Covid world | | • Modern slavery in supply chains<br>• Sound social management<br>• Transition minerals | |

| | | |
|---|---|---|
| Associated SDGs | 16. Peace, justice & strong institutions | |
| Core theme | Good Governance | |
| WPP Stewardship theme | Governance for sustainable outcomes | |
| Implementation – LAPFF | • Promoting Good Governance | |
| Implementation – Robeco | • Corporate governance standards in Asia<br>• Good governance in Emerging Markets | • Good governance<br>• Tax transparency<br>• Policy engagement: shareholder rights |

SDG engagement | Global controversy engagement | AGM engagement | Sovereign engagement

Mae'r broses adolygu flynyddol yn defnyddio ystod eang o fewnbynnau, gan gynnwys:

- **Themâu sy'n deillio o fonitro parhaus:** gall monitro is-gronfeydd yn barhaus helpu i nodi bylchau stiwardiaeth posibl. Er enghraifft, materion y dylid eu codi gyda chwmnïau neu dueddiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw.
- **Mewnbwn gan y gymuned fuddsoddi ehangach:** gan gynnwys ymchwil, deddfwriaeth sydd ar ddod, materion newydd sy'n codi pryder, monitro newyddion a safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, a mewnbwn yn deillio o'r arbenigedd stiwardiaeth ehangach o fewn Goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## Llywodraethu ar gyfer canlyniadau cynaliadwy

O ystyried na chafodd y thema hon ei diweddaru yn ystod ein hadolygiad diwethaf (a'i bod heb ei diweddaru ers ei sefydlu'n wreiddiol fel blaenoriaeth bleidleisio), roeddem yn credu bod diweddaru'r thema hon yn synhwyrol. Daw hyn yn erbyn cefndir, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o fethiannau llywodraethu corfforaethol proffil uchel, yn fyd-eang ac yn y DU yn benodol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn ymatebion pleidleisio ac ymgysylltu, ond hefyd mae wedi ysgogi rheoleiddio llymach. Cytunodd y rhanddeiliaid y byddai diweddariad i'r geiriad yn briodol, fel a ganlyn:

> *Mae arferion llywodraethu cynaliadwy yn ganolog i sut mae sefydliad yn cael ei redeg, oherwydd gellir olrhain llawer o fethiannau amgylcheddol a chymdeithasol yn ôl i arferion llywodraethu gwannach. Credwn y dylid rheoli sefydliadau mewn ffordd sy'n sicrhau y crëir gwerth cynaliadwy, hirdymor gan roi ffocws ar reoli risg cryf, yn enwedig mewn perthynas â ffynonellau risg sy'n dod i'r amlwg. Dylai sefydliadau fod yn dryloyw yn y ffordd y maent yn asesu a rheoli unrhyw risgiau ESG yn eu cadwyni cyflenwi ac yn eu strategaethau. Dylai hyn gynnwys: monitro (a, lle bo hynny'n briodol, adrodd ar) arferion diwydrwydd dyladwy ESG; sut mae ESG yn cael ei gynnwys mewn penderfyniadau corfforaethol; cynnwys meini prawf ESG wrth ddigolledu; meini prawf perfformiad sy'n hyrwyddo rheoli risgiau ariannol ac anariannol; meini prawf perfformiad sy'n gysylltiedig â nodau cwmni; fframweithiau gwerthuso perfformiad mwy strwythuredig (h.y. llai dewisol) ar gyfer dyfarniadau cymhelliant tymor byr a hirdymor (yn enwedig cyfrifiadau bonws prif swyddogion gweithredol).*

Ar ôl ymgynghori â RISG Partneriaeth Pensiwn Cymru a rhanddeiliaid eraill, cynigiwyd y meysydd pwnc canlynol i'w trafod ym mhaneli cleientiaid Robeco (y panel cychwynnol sy'n benodol i GLlLC a'r panel perchnogaeth weithredol, lle dewiswyd themâu).

## Deallusrwydd Artiffisial, Technolegau Datblygol, a Seiberddiogelwch

Rydym yn parhau i weld cynnydd yn yr offer sy'n prif ffrydio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a dysgu gan beiriannau. Er bod potensial eang yn perthyn i'r defnydd o'r dechnoleg hon, mae angen sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol a chyda'r amddiffyniadau angenrheidiol i bobl. Yn 2023/24, gwelsom gynnydd yn nifer y penderfyniadau ar y pwnc hwn mewn cwmnïau technoleg mawr. Fodd bynnag, credwn y bydd y mater hwn yn parhau i gyflwyno risg ar draws sectorau, nid dim ond y cwmnïau hynny yn y sector technoleg. Yng nghamau cynnar defnyddio unrhyw dechnoleg newydd, gall twf yn aml fod yn esbonyddol, gyda chwmnïau yn ceisio sefydlu sut y gellir integreiddio offer o'r fath mewn busnes. Gan fod gweithgarwch gweithredol wedi cael ei ddigido mwyfwy, felly hefyd mae diogelu rhwydweithiau a systemau rhag ymosodiadau seiber yn elfen hanfodol o arferion busnes. Fel arfer nid oes cysylltiad rhwng cyflwyno technoleg a sefydlu mesurau diogelu rheoleiddiol angenrheidiol, gyda'r cyntaf yn digwydd llawer cynt. Mae'n hanfodol felly fod busnesau yn sicrhau bod mesurau diogelu yn rhan o'r prosesau a'r systemau ar yr un pryd ag y caiff yr achosion defnydd eu sefydlu a'r offer ei ddosbarthu, yn hytrach nag ar ôl i hynny ddigwydd. Felly dylai stiwardiaeth buddsoddwyr ganolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio mesurau diogelu o'r fath o fewn cwmnïau, wrth ystyried diogelwch busnes yn ogystal â'r anfanteision cymdeithasol ehangach (megis colli swyddi).

## Hawliau dynol

Mae mwy o sylw wedi cael ei roi i ffactorau 'S' (cymdeithasol) yn gyffredinol, gan gynnwys ymddangosiad y Tasglu ar Ffactorau Cymdeithasol. Yn fyd-eang, mae gwrthdaro geowleidyddol enbyd wedi bod, gan gynnwys y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin, y gwrthdaro yn Nhiriogaethau Meddianedig Palesteina, a'r rhyfel cartref yn Sudan. Y llynedd, mewn ymateb i gynnydd yn nifer yr ardaloedd yr oedd gwrthdaro'n effeithio arnynt (gan gynnwys Rwsia), yn ogystal â materion hawliau dynol parhaus yn Tsieina, cafodd thema ymgysylltu Robeco ar Ddiwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol ar gyfer Ardaloedd yr oedd Gwrthdaro'n effeithio arnynt ac ardaloedd Risg Uchel ei hymestyn (roedd y thema fod i ddod i ben yn 2024) i dargedu pedwar cwmni newydd.

Awgrymwyd bod y thema hon yn rhan o'r trafodaethau gyda Robeco, gan gynnwys a fydd hawliau dynol bellach yn cael eu hystyried yn thema 'fytholwyrdd' ar gyfer Robeco (yn unol ag awgrymiadau y llynedd) ac a yw Robeco / sut mae Robeco yn bwriadu ehangu'r thema ymhellach dros y flwyddyn i ddod.

## Arferion lobïo corfforaethol

Mae cyfrannu at benderfyniadau'r llywodraeth a pholisi cyhoeddus yn elfennau hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd, gan ganiatáu i ragor o drafodaeth gyhoeddus ddigwydd ac i farn rhanddeiliaid gael ei chlywed (a'i hadleisio mewn deddfwriaeth). Fodd bynnag, gall arferion lobïo corfforaethol fod yn niweidiol, wrth roi dylanwad anghymesur i gwmnïau dros bolisi cyhoeddus, a gallant hefyd fod yn wahanol i nodau cyhoeddus cwmnïau o'r fath (a buddiannau pennaf cyfranddalwyr). Mae ymchwil gan Morningstar wedi tynnu sylw at nifer cynyddol o Gynigion Cyfranddalwyr (yn yr Unol Daleithiau yn arbennig) ym maes dylanwad gwleidyddol a gweithgareddau lobïo, ac wedi tynnu sylw at nifer o achosion lle mae arferion lobïo naill ai wedi bod yn niweidiol (gan gynnwys yn achos cwmni rheilffyrdd Norfolk Southern) neu'n anghydnaws â nodau datganedig (megis cefnogaeth ConocoPhillips i Gytundeb Paris tra'n parhau i lobïo dros gymeradwyo drilio yn yr Arctig). Felly, mae tryloywder mewn arferion o'r fath yn angenrheidiol, nid yn unig o safbwynt diogelu buddiannau buddsoddwyr, ond hefyd o ystyried y potensial ar gyfer risg reoleiddiol pe bai deddfwriaeth yn y maes hwn yn troi'n llymach.

## Adborth Rhanddeiliaid

Un cyfraniad allweddol ar gyfer datblygu'r themâu stiwardiaeth oedd ymgorffori adborth gan randdeiliaid ehangach. O'r ymatebion a gafwyd, cefnogwyd datblygiad Themâu Stiwardiaeth llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru (Llywodraethu ar gyfer Canlyniadau Cynaliadwy), a amlygwyd uchod. Dylai hyn wedyn fwydo'r craffu chwarterol ar y gwaith stiwardiaeth mae Robeco yn ei wneud (a'r adrodd ynghylch hynny), y rheolwyr buddsoddi gwaelodol, a LAPFF ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cytunwyd hefyd y dylai'r ffocws yn ystod 2024/25 fod ar drefnu rhagor o fonitro ac adrodd ar weithgarwch yng nghyd-destun Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd ymgysylltu â hawliau dynol yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth fawr i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn enwedig gan fod hynny'n ymwneud â gwrthdaro. Felly, roeddem yn teimlo bod ystyried y thema hon yn benodol yn bwydo i ddau banel cleientiaid Robeco ym mis Tachwedd 2024. Hefyd trafodwyd y ddwy thema arall, Deallusrwydd Artiffisial a lobïo corfforaethol.

Yn ogystal, cytunom i geisio diweddariadau ar:

- **Newid yn yr Hinsawdd:** unrhyw newidiadau disgwyliedig i'r thema bytholwyrdd
- **Bioamrywiaeth:** NA100 a sut mae Robeco yn cymhwyso ei fframwaith buddsoddi bioamrywiaeth i'r Is-gronfa Credyd Byd-eang a sut mae hyn yn dod trwodd mewn gwaith stiwardiaeth.
- **Ymgysylltiad polisi:** pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar ymgysylltiadau polisi ac a oes unrhyw ehangu wedi bod ar y gwaith a amlygwyd y llynedd; hefyd ceisio deall sut y gall Robeco arddangos y gwaith hwn yn fwy rheolaidd yn ei adroddiadau chwarterol.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Panel cleientiaid perchnogaeth weithredol Robeco**

Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhan o banel cleientiaid perchnogaeth weithredol Robeco, gan gefnogi lansio'r thema ymgysylltiad polisi (ar hawliau cyfranddalwyr) ac ymgysylltiad penodol ar bontio mwynau. Roeddem hefyd yn falch bod nifer o bwyntiau allweddol eraill wedi'u cydnabod: gan gynnwys ehangu'r rhaglen(ni) ymgysylltiad-hinsawdd a sylw ymgysylltu ehangach ar gyfer pynciau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, gan gynnwys ehangu'r rhaglen ddatgoedwigo i gynnwys nid yn unig olew palmwydd ond nwyddau eraill o goedwigoedd.

## Ein Themâu Stiwardiaeth

Gan ymgorffori'r adolygiad blynyddol a amlinellir uchod, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi pennu set o Themâu Stiwardiaeth. Rôl y themâu hyn yw darparu meysydd ffocws er mwyn hysbysu Robeco o ddisgwyliadau pleidleisio ac ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru, a chraffu ar y gweithgarwch stiwardiaeth sy'n cael ei wneud ar ran y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau bod y ffocws yn adlewyrchu'r pynciau sydd fwyaf perthnasol i'r Bartneriaeth a bod gweithgarwch stiwardiaeth yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Defnyddir y themâu fel meysydd ffocws allweddol ar gyfer y gwaith pleidleisio ac ymgysylltu a wneir gan Robeco, yn ogystal â gwaith craffu Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ei rheolwyr.

| Thema Stiwardiaeth | Rhesymeg |
|---|---|
| Canolbwyntio ar Sero Net | Dylai sefydliadau, yn enwedig y rhai mewn sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol, fod yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau pontio i sicrhau bod y mudo hirdymor i economi carbon isel yn drefnus. Dylai cwmnïau sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyhoeddi, a bod datgeliadau rheoli hinsawdd yn gynhwysfawr ac ar gael ar gyfer craffu buddsoddwyr. Dylai unrhyw ystyriaeth o wrthbwyso carbon yng nghynlluniau sero net cwmnïau fod yn unol ag Egwyddorion Rhydychen, a dylid gwneud rhanddeiliaid yn ymwybodol o unrhyw ddibyniaeth ar dechnolegau gwaredu carbon, gan gynnwys i ba raddau y defnyddir y technolegau hyn. |
| Cefnogi pobl | Mae gweithlu sefydliad yn un o'i asedau mwyaf gwerthfawr ac mae'n ddyletswydd ar y sefydliad i sicrhau bod ei bobl yn cael eu rheoli a'u gwobrwyo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried pobl o fewn cadwyni cyflenwi, a all yn aml fod yn feysydd o graffu is. Er ei fod yn cydnabod y gall ymgysylltu fod yn gynnil, o ystyried amgylchiadau rhanbarthol, sectoraidd a meintiol unigryw, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn arbennig o gefnogol i ymgysylltu â chwmnïau'r DU ynghylch cysoni eu strwythurau cyflog gyda chanllawiau'r Sefydliad Cyflog Byw. |
| Llywodraethu ar gyfer Canlyniadau Cynaliadwy | Mae arferion llywodraethu cynaliadwy yn ganolog i sut mae sefydliad yn cael ei redeg, gan y gellir olrhain llawer o fethiannau amgylcheddol a chymdeithasol yn ôl i arferion llywodraethu gwannach. Credwn y dylid rheoli sefydliadau mewn ffordd sy'n sicrhau y crëir gwerth cynaliadwy, hirdymor gan roi ffocws ar reoli risg cryf, yn enwedig mewn perthynas â ffynonellau risg sy'n dod i'r amlwg. Dylai sefydliadau fod yn dryloyw yn y ffordd y maent yn asesu a rheoli unrhyw risgiau ESG yn eu cadwyni cyflenwi ac yn eu strategaethau. Dylai hyn gynnwys: monitro (a, lle bo hynny'n briodol, adrodd am) arferion diwydrwydd dyladwy ESG; sut caiff ESG ei gynnwys mewn penderfyniadau corfforaethol; cynnwys meini prawf ESG wrth ddigolledu; meini prawf perfformiad sy'n hyrwyddo rheoli risgiau ariannol ac anariannol; meini prawf perfformiad sy'n gysylltiedig â nodau cwmni; fframweithiau gwerthuso perfformiad mwy strwythuredig (h.y. llai dewisol) ar gyfer dyfarniadau cymhelliant tymor byr a hirdymor (yn enwedig cyfrifiadau bonws prif swyddogion gweithredol). |

## Stiwardiaeth mewn marchnadoedd preifat

Er bod ffocws stiwardiaeth yn aml ar y gofod rhestredig, rhaid i ni hefyd gydnabod pwysigrwydd gweithgarwch yn y gofod marchnadoedd preifat, lle gellir nodi effaith a dylanwad, o ystyried natur y berthynas fuddsoddi yn y dosbarthiadau asedau hyn. Ar ôl lansio ein rhaglenni marchnad breifat yn ddiweddar, amlinellwn nifer o enghreifftiau o'r modd y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dangos goruchwyliaeth dros ein buddsoddiadau sydd heb eu rhestru.

### Dyled breifat

Caiff buddsoddiadau dyled breifat Partneriaeth Pensiwn Cymru eu rheoli gan Russell Investments, sy'n cymhwyso'r un dulliau diwydrwydd dyladwy ESG a gwell goruchwyliaeth i fuddsoddiadau'r farchnad breifat.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**Pluto**

O fewn y rhaglenni marchnad breifat, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth drafod ei nod o gynyddu dyraniadau i fuddsoddiadau lleol sydd o fudd i Gymru. Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'i rhaglen dyled breifat gyda Russell IM, buddsoddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn cyfle gyda Pluto Finance, gan gefnogi cymunedau lleol drwy ariannu'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy yng Nghymru, yn enwedig drwy roi hwb i adeiladwyr bach a chanolig, a thargedu twf economaidd a chreu swyddi. Caiff y buddsoddiad ei wneud trwy raglen effaith leol Pluto Finance, a thrwy honno gall cronfeydd a chronfeydd cyfunol CPLlL ddarparu buddsoddiad YN seiliedig ar le.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**fframweithiau cynaliadwyedd perchnogol**

Rydym wedi nodi o'r blaen y problemau o ran argaeledd data, yn fwyfwy mewn marchnadoedd preifat, a sut y gellir cyfuno hyn yn well i gael gwybodaeth. Mae un o'r rheolwyr yn ein rhaglen dyled breifat, Lombard Odier, yn anelu at fynd i'r afael â hyn yng nghyd-destun pontio teg. Defnyddia'r strategaeth ei fframwaith perchnogol i gefnogi buddsoddiadau sy'n cyfrannu at economi 'CLIC': Cylchol, Darbodus, Cynhwysol a Glân. Mae pob buddsoddiad yn cael ei asesu yn erbyn y Fframwaith, sy'n defnyddio tri phrawf wrth ddynodi buddsoddiad posibl yn un cynaliadwy:

1. **Cyfraniad sylweddol:** yn profi pa weithgareddau o blith rhai'r buddsoddiad sy'n creu effaith amgylcheddol neu gymdeithasol gadarnhaol
2. **Dim yn gwneud niwed sylweddol:** yn defnyddio nifer o fetrigau i sicrhau nad yw'r cwmni'n cyfrannu at niwed amgylcheddol neu gymdeithasol arall wrth fynd ar drywydd cyfraniad cadarnhaol yn rhywle arall
3. **Llywodraethu Da:** yn cymryd ymagwedd gyfannol, gan sicrhau bod y bwrdd yn goruchwylio a'n rheoli risg, yn ogystal â rheoli'r gadwyn gyflenwi a rheoli cyfalaf dynol, ond hefyd yn defnyddio timau lleol i sicrhau ymgysylltiad priodol â chymunedau lleol a rhanddeiliaid.

Y nod yw bod y buddsoddiad yn creu effaith gadarnhaol mewn tri maes gwahanol: (1) hinsawdd a'r amgylchedd (datgarboneiddio, er enghraifft); (2) dosbarthiad economaidd-gymdeithasol a thegwch (cyfleoedd i gael swyddi, er enghraifft); (3) llais cymunedol (ymgysylltu â chymunedau lleol o'r cyfnod cyn-datblygu hyd at ei roi ar waith a'r gweithredu parhaus).

## Ecwiti preifat

Caiff dyraniad ecwiti preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru ei reoli gan Schroders Capital, sy'n buddsoddi ar draws buddsoddiadau cynradd; buddsoddiadau eilaidd; yn ogystal â buddsoddiadau uniongyrchol ac ar y cyd. Wrth oruchwylio marchnadoedd preifat, mewn cydweithrediad â'n Hymgynghorydd Goruchwylio, rydym wedi creu disgwyliadau i reolwyr ecwiti preifat mewn strwythurau 'fund of fund', sy'n cynnwys agwedd rheolwyr o'r fath at eu perthynas â phartneriaid cyffredinol, a sut maent yn monitro ac yn adrodd ar weithgarwch yn weithredol. Rydym yn gadarnhaol ynghylch ymagwedd Schroders at Fuddsoddi Cyfrifol yn gyffredinol; nodwn sgôr UN PRI A+ ar gyfer ecwiti preifat yn benodol, ac ymrwymiad i Fenter Cydgyfeirio Data ESG, sy'n anelu at fynd i'r afael â'r casglu a'r adrodd darniog ac amrywiol ar ddata ESG mewn marchnadoedd preifat.

Amlygwn isod Fframwaith Cynaliadwyedd ac Effaith perchnogol Schroders, sy'n sicrhau bod ystyriaethau Buddsoddiad Cyfrifol yn elfen annatod o'r broses fuddsoddi yn ei chyfanrwydd:

**Fully integrated S&I Framework: WPP approach**

| Sourcing | | Due diligence | Subscription | Value creation | Execution & monitoring | Exit |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Focus on:<br>• Negative exclusions<br>• Positive selection<br>• Possibility to report<br>• Perceptiveness to engagement | ESG integrated | All investments:<br>• ESG incident and controversy assessment<br>Transactional investments:<br>• ESG material risk and opportunities assessment<br>Fund investments:<br>• Proprietary GP and Fund ESG assessment | All investments:<br>• Encouragement on ESG reporting (including EDCI)<br>Fund investments:<br>• Schroders Capital exclusion policy<br>• Acknowledgement of UNPRI principles | Strategic GPs:<br>• Governance (of ESG), transparency (reporting) and material business practices for portfolio companies<br>Transactional investments:<br>• Focus on ESG incident prevention or follow-up | All investments:<br>• ESG incidents<br>• Carbon proxy data (~50% of Schroders Capital's private equity NAV)<br>• RepRisk rating<br>• Proprietary GP and Fund ESG assessment<br>Transactional investments:<br>• Proprietary SDG alignment assessment | Schroders Capital exit responsibility (minority of investments):<br>• Include most recent ESG profile in sale documentation<br>External lead investor exit responsibility (majority of investments):<br>• Regular exit-related engagement with lead investors to ensure sale to ESG- and impact-aligned investors or strategic buyers |
| | Sustainability driven | Transactional investments:<br>• Proprietary company ESG with score expectation<br>Fund investments:<br>• Proprietary GP and Fund ESG assessment with score expectations | All investments:<br>• Mandatory ESG reporting KPIs and reporting timeline | All investments:<br>• Enhancement of ESG performance, including regular re-assessment in proprietary tools | All investments:<br>• Scope 1 and 2 GHG emissions<br>• Gender diversity at company and senior management level<br>• Existence of Code of Conduct<br>• Existence of formal Corporate Sustainability approach<br>• Proprietary ESG assessment scores | |

**Ffynhonnell:** Schroders Capital, UN Sustainable Development Goals, UN Principles for Responsible Investments, ESG Data Convergence Initiative, Operating Principles for Impact Management, Impact Management Project, SASB Standards, RepRisk, ILPA, World-Check, iCI (Initiative Climat International) 2025. WPP Advisory Meeting. Logos shown are the property of their respective entity.

## Seilwaith


Caiff buddsoddiadau seilwaith caeedig Partneriaeth Pensiwn Cymru eu rheoli gan GCM Grosvenor, tra bod CBRE, IFM ac Octopus yn gweithredu'r rhaglenni seilwaith caeedig. Mae pob un o reolwyr seilwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru yn integreiddio ystyriaethau ESG yn eu proses fuddsoddi, yn y cam cymeradwyo (cyn buddsoddi), yn ogystal â thrwy fonitro a goruchwylio.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**Mesur lliniaru newid hinsawdd ac effaith mewn seilwaith**

Mae un o fuddsoddiadau seilwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru o fewn portffolio ynni adnewyddadwy. Er bod y buddsoddiadau hyn yn cyfrannu tuag at bontio ynni a datgarboneiddio byd go iawn, mae nifer o risgiau o hyd, sy'n tanlinellu pwysigrwydd olrhain yn effeithiol a mesur risg o sawl ongl bosibl. Wrth geisio deall sut mae rheolwyr yn mynd i'r afael â hyn, adolygom fethodoleg y rheolwr ar gyfer ystyried risg ac effaith ar yr hinsawdd, ac roeddem yn falch o weld dull cyfannol sy'n cynnwys dadansoddi gyda llygad ar y dyfodol.


Mae'r rheolwr yn deall y gall effeithiau cysylltiedig â'r hinsawdd a natur arwain at newidiadau hirdymor mewn patrymau tywydd, a allai effeithio ar yr ynni a gynhyrchir gan ased o gymharu â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ar yr adeg fuddsoddi. Felly, ceisiant liniaru effaith y risgiau hinsawdd ffisegol hyn ar y portffolio trwy arallgyfeirio cyfnod buddsoddiad, technoleg a daearyddiaeth. Modelir elfennau sensitif yn yr un modd er mwyn ystyried newid mewn prisiau ynni. Hefyd ystyria'r rheolwr effaith ariannol effeithiau hinsawdd ffisegol trwy ddadansoddi senarios. Edrycha'r dadansoddi hwn yn benodol ar generaduron gwynt, gan ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd ffisegol ar bris pŵer ac ar gynhyrchu mewn senario 4 gradd.



# SUT Y GWNAETHOM BLEIDLEISIO

## Ein canlyniadau pleidleisio

Mae'r map isod yn dangos y rhanbarthau lle bwriwyd pleidleisiau dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, a bennwyd yn ôl dosbarthiad rhanbarthol gwaelodol asedau o fewn Is-gronfeydd ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru:




| | 2024/25 |
|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 1,362 |
| Nifer yr eitemau ar yr agenda y pleidleisiwyd arnynt | 16,379 |
| Gyda'r rheolwyr | 14,410 |
| Yn erbyn y rheolwyr | 1,969 |
| Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr | **56%** |


**Voting per proposal category**




**Ffynhonnell:** Robeco; sylwer, efallai na fydd y ffigurau yn adio i greu'r cyfanswm am eu bod wedi'u talgrynnu


# Canlyniadau pleidleisio yn ôl Is-gronfa

## TWF BYD-EANG





Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: 152
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: 2,178









**Ffynhonnell:** Robeco; note, totals may not sum due to rounding

## CYFLEOEDD Y DU





Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: 571
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: 7,656









**Ffynhonnell:** Robeco; note, totals may not sum due to rounding

## DU OPPORTUNITIES





**Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: 150**
**Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: 2,805**





**Ffynhonnell:** Robeco; note, totals may not sum due to rounding

## MARCHNADOEDD DATBLYGOL





Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: 624
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: 5,661









**Ffynhonnell:** Robeco; note, totals may not sum due to rounding

## ECWITI GWEITHREDOL CYNALIADWY




Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: 624
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: 5,661




**Ffynhonnell:** Robeco; note, totals may not sum due to rounding

## Sicrhau bod pleidleisio'n cyd-fynd â pholisi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r gweithgarwch pleidleisio a wnaed gan Robeco ar ei rhan bob chwarter ac yn nodi, ar draws ystod o benderfyniadau, bod pleidleisiau wedi'u bwrw yn unol â bwriadau'r Bartneriaeth. Ceir enghreifftiau o hyn isod:

### Cwmni: Shell

cwmni olew a nwy amlwladol

**Dyddiad**: 21 Mai 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Yn gyffredinol roedd Robeco yn gefnogol i'r rhan fwyaf o benderfyniadau rheoli Shell, o ystyried y croesewid ar y cyfan ei arferion llywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, roedd un cynnig gan y rheolwyr yn gofyn i gyfranddalwyr gymeradwyo adroddiad cynnydd hinsawdd y cwmni a Strategaeth Bontio 2024 wedi'i diweddaru. Noda Robeco nifer o newidiadau yn y strategaeth, gan gynnwys dileu targed Shell ar gyfer 2035 i dorri dwysedd carbon net Cwmpas 1, 2 a 3 45%, a lleihau targed 2030. Ffeiliwyd cynnig cyfranddalwyr a ofynnai i Shell gynyddu ei ymdrech a sicrhau bod ei dargedau lleihau allyriadau cwmpas 3 tymor canolig yn cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris.

Mae Robeco, er ei fod yn cydnabod sefyllfa Shell fel un o arweinwyr y sector, yn pryderu am y diffyg gostyngiadau allyriadau absoliwt clir y bydd targedau Shell yn eu cyflawni. Tynnodd Robeco sylw hefyd at y pryder y bydd dileu targed 2035 yn golygu y bydd angen ymdrechion mwy drastig yn y tymor canolig i'r tymor hir. Felly pleidleisiodd Robeco yn erbyn cynnig 'Say on Climate' y rheolwyr a chefnogi cynnig y cyfranddalwyr ar yr hinsawdd.

*Cafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda chefnogaeth o 78%; ni basiodd cynnig y cyfranddalwyr, cafodd gefnogaeth o 18.6%.*

Cyhoeddodd LAPFF rybudd pleidleisio yn nodi ei safbwynt nad yw Shell yn pontio'n ddigon cyflym. Felly gofynnai'r rhybudd i gyfranddalwyr bleidleisio yn erbyn ail-ethol nifer o gyfarwyddwyr, ond cadw i gefnogi Syr Andrew Mackenzie, cadeirydd (anweithredol) y bwrdd. Dywedodd LAPFF wrth aelodau am beidio â chefnogi Strategaeth Bontio 2024, ac roedd pryderon penodol ynghylch dibyniaeth Shell ar wrthbwyso i fynd i'r afael ag allyriadau. Ar y llaw arall, argymhellodd LAPFF gefnogi'r cynnig cyfranddalwyr Follow This ar aliniad Paris.

*Pleidleisiodd Robeco dros yr holl etholiadau cyfarwyddwyr, er ei fod wedi pleidleisio yn unol â LAPFF ar gynnig y cyfranddalwyr (o blaid) a chynnig y rheolwyr (yn erbyn) ar yr hinsawdd.*

### Cwmni: Amazon.com

Cwmni technoleg o'r Unol Daleithiau

**Dyddiad**: 22 Mai 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Pleidleisiodd Robeco yn erbyn cynnig Say on Pay y rheolwyr, o ystyried pryderon ynghylch arferion cyflog swyddogion gweithredol Amazon (dyfarnu grantiau ecwiti dewisol nad ydynt yn seiliedig ar ofynion perfformiad). Hefyd cafodd pryderon o'r fath eu huwchgyfeirio gan Robeco drwy bleidleisio yn erbyn cadeirydd y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol.

Roedd nifer o gynigion cyfranddalwyr amgylcheddol, gan gynnwys gofyn i Amazon osod nodau ar gyfer lleihau pecynnu plastig, datgeliadau ynghylch allyriadau cwmpas 3, a gofyn am adroddiad ar ei strategaeth bontio. Roedd Robeco yn cefnogi pob un o'r cynigion cyfranddalwyr hyn.

Cefnogodd Robeco ddau gynnig cyfranddalwyr wedi'u hanelu at ddiogelu'r gweithwyr. Gofynnodd y cyntaf i Amazon gynnal archwiliad o amodau gwaith gweithwyr warws; gofynnodd yr ail gynnig cyfranddalwyr am asesiad o ymlyniad Amazon i'w egwyddorion hawliau dynol, gan ganolbwyntio ar yr hawl i gydfargeinio.

Cefnogodd Robeco ymhellach ddau gynnig cyfranddalwyr sy'n gysylltiedig ag effeithiau hawliau dynol posibl ei gynhyrchion. Gofynnodd y cyntaf i Amazon asesu'r risg hawliau dynol o ddarparu technoleg adnabod wyneb i lywodraethau. Ceisiai'r ail sefydlu pwyllgor i asesu risgiau hawliau dynol yn systemau Deallusrwydd Artiffisial Amazon.

*Ni chafodd un o'r cynigion cyfranddalwyr gefnogaeth y mwyafrif.*

*Pleidleisiodd Robeco yn gyffredinol yn unol ag argymhellion LAPFF, er nad oedd yn cefnogi'r cynnig cyfranddalwyr a ofynnai am ddatgelu rhoddion cyfarwyddwyr, na'r cynnig cyfranddalwyr ynghylch ffurfio pwyllgor polisi cyhoeddus.*

**Cwmni: Tesla**
Cwmni moduron o'r Unol Daleithiau

**Dyddiad**: 13 Mehefin 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Roedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni yn hynod arwyddocaol i ddau gynnig gan reolwyr a gyflwynwyd. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chadarnhau dyfarniad perfformiad stoc 2018, a wnaed yn ddi-rym mewn llys yn Delaware ar ddechrau 2024, pan ddaeth y llys i'r casgliad bod y broses o gadarnhau gan fwrdd Tesla yn 'deeply flawed'. Dewisodd Robeco beidio â chefnogi'r cynnig, gan deimlo nad oedd yn bodloni meini prawf gofynnol Robeco o ran tâl cwantwm, yn ogystal â chodi pryderon llywodraethu.

*Derbyniodd y cynnig 72% o'r pleidleisiau a fwriwyd, ac eithrio'r pleidleisiau oedd berchen i Elon a'i frawd Kimbal.*

Ceisiai'r ail gynnig ailgorffori Tesla o Delaware i Texas. Daeth Robeco i'r casgliad bod ailgorffori o'r fath yn peri risg i'r busnes, yn enwedig o ystyried bod llysoedd busnes Texas yn gymharol newydd gyda llai o gyfraith achosion bresennol.

*Pasiodd y cynnig gydag 84% o'r pleidleisiau a fwriwyd nad oeddent yn berchen i Elon a'i frawd Kimbal.*

*Pleidleisiodd Robeco yn unol ag argymhellion LAPFF i wrthwynebu'r ddau gynnig uchod gan reolwyr. Pleidleisiodd Robeco hefyd yn unol ag argymhellion LAPFF ar y tri chynnig cyfranddalwyr yr ymdriniwyd â nhw yn y rhybudd pleidleisio, ar ddigelu'r bwrdd, adrodd ar ymdrechion gwrth-aflonyddu a gwahaniaethu, ac ar fabwysiadu polisi ar ryddid i ymgysylltu a chydfargeinio.*

**Cwmni: Nestlé**
Cydgwmni bwyd a diod o'r Swistir*

**Dyddiad**: 18 Ebrill 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Cafodd un cynnig cyfranddalwyr sylw helaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni, gan ofyn i Nestlé ychwanegu targed â chyfyngiad amser yn ei erthyglau cymdeithasu i gynyddu cyfran y gwerthiannau sy'n deillio o gynhyrchion iach. Pleidleisiodd Robeco am y cynnig cyfranddalwyr, yn unol ag argymhelliad LAPFF, gan deimlo ei fod yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a hefyd nad oedd yn or-gyfarwyddol, a thrwy hyn adael y gosod targedau i'r cwmni ei hun.

*Methodd y cynnig, gydag 87% o'r pleidleisiau yn erbyn.*

Pleidleisiodd Robeco yn erbyn yr adroddiad digolledu am fwy na thair blynedd yn olynol, heb arsylwi ar adfachiad neu ddarpariaeth arall a gymhwyswyd i gymhellion hirdymor swyddogion gweithredol. Er mwyn uwchgyfeirio pryderon yma, pleidleisiodd Robeco hefyd yn erbyn ethol cadeirydd y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol.

*Cafodd y cynnig ei basio gyda chefnogaeth o dros 83%.*

### Cwmni: Reliance Industries

Cwmni olew a nwy o'r India*

**Dyddiad**: 29 Awst 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Reliance Industries yw rhiant-gwmni un o gwmnïau archwilio a chynhyrchu olew a nwy mwyaf India. Felly, ymgysylltir â'r cwmni trwy thema Pontio Teg mewn Marchnadoedd Datblygol Robeco, a fydd ar waith tan fis Medi 2026. Mae'r thema'n canolbwyntio ar sectorau mwyngloddio ac ynni o fewn marchnadoedd datblygol, ac yn ceisio newid ymddygiad corfforaethol drwy bellhau o system seiliedig ar danwydd ffosil a chynnwys arferion mwy cynaliadwy.

Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gyfle i Robeco godi pryderon ynghylch effaith y cwmni ar newid yn yr hinsawdd. Gan fod un o gwmnïau archwilio a chynhyrchu olew a nwy mwyaf yr India o fewn portffolio is-gwmnïau Reliance, mae Robeco yn credu y dylai'r cwmni gael y strategaethau angenrheidiol ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau y mae ei weithrediadau'n eu peri i newid hinsawdd (ac i'r gwrthwyneb). O ystyried bod Robeco wedi canfod bod diffyg elfennau strategaeth hinsawdd allweddol, fel targedau allyriadau cwmpas 3, fe wnaethant uwchgyfeirio pryderon trwy bleidleisio yn erbyn cadeirydd y pwyllgor cynaliadwyedd.

*Pasiwyd y bleidlais ac ail-etholwyd Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd.*

### Cwmni: Aluminum Corp. o Tsieina (Chalco)

Cwmni alwminiwm Tsieineaidd*

**Dyddiad**: 26 Chwefror 2025

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**


Mae un o'r dyroddwyr ar restr ffocws hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru, Chalco, yn gorfforaeth aml-wladol sy'n eiddo i'r wladwriaeth, yr ymgysylltir ag ef ar hyn o bryd trwy thema Cyflymu tuag at Gytundeb Paris Robeco, a fydd yn rhedeg tan 2027. Mae'r thema yn canolbwyntio ar gwmnïau sy'n wynebu'r risg fwyaf o'r pontio ynni, gan helpu'r rhai maent yn teimlo eu bod nhw ar eu hôl hi i roi cynlluniau pontio cadarn ar waith. Mewn cyfarfod arbennig o Chalco, pleidleisiodd Robeco yn erbyn etholiad cyfarwyddwr, i uwchgyfeirio pryderon nad yw'r cwmni yn mynd i'r afael yn ddigonol ag effaith newid hinsawdd ar y busnes. Er na fu cynnydd o ran ei ymgysylltiadau ar y pwnc ar ddechrau'r flwyddyn, ar ôl diwedd y flwyddyn, mae Robeco wedi adrodd cynnydd cadarnhaol mewn targedau lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac wrth raddol ddileu pŵer glo. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yma, fel rhan o'n craffu ffocws ar hinsawdd

* Dyroddwyr ar y rhestr ffocws hinsawdd



# SUT Y GWNAETHOM YMGYSYLLTU

## Ymgysylltu yn ystod 2024/25




Mae Robeco yn ymgymryd â thri math o waith ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- **Gwerth:** dull rhagweithiol, gan ganolbwyntio ar faterion hirdymor a allai fod yn berthnasol yn ariannol a/neu gael effaith ar gynaliadwyedd. Prif amcan ymgysylltu o'r fath yw creu gwerth i fuddsoddwyr trwy wella ymddygiad a llywodraethu.
- **Uwch:** yn canolbwyntio ar gwmnïau sy'n torri normau ymddygiadol gofynnol yn ddifrifol ac yn strwythurol mewn meysydd megis hawliau dynol, llafur, yr amgylchedd, bioamrywiaeth a moeseg busnes. Y prif amcan fan hyn yw mynd i'r afael â'r diffyg a sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â chodau ymddygiad a dderbynnir yn rhyngwladol.
- **Nodau Datblygu Cynaliadwy:** gyrru gwelliant clir a mesuradwy yng nghyfraniad cwmni i Nodau Datblygu Cynaliadwy.


Yn gyffredinol, cynhelir ymgysylltiadau dros gyfnod o dair blynedd (yn enwedig ar gyfer ymgysylltiadau gwerth y farchnad datblygedig); ar y cyfan rhoddir rhagor o amser (pedair blynedd) i ddyroddwyr marchnadoedd datblygol, tra bo ymgysylltiadau uwch yn cael uchafswm o dair blynedd.

Adroddir ar y gweithgarwch ymgysylltu isod ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Nodwn nad yw Robeco yn gwahaniaethu rhwng natur daliadau yn eu gweithgaredd ymgysylltu, o ystyried bod Robeco yn cynrychioli nifer o gleientiaid, dewisir dyroddwyr yn seiliedig ar thema, felly byddant yn cynnwys daliadau incwm sefydlog ac ecwiti (ar draws yr Is-gronfeydd a reolir yn weithredol yn ogystal â buddsoddiadau goddefol drwy BlackRock).

O ystyried natur fyd-eang buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu ar draws sawl rhanbarth, gyda'r gweithgarwch wedi'i rannu fel y dangosir uchod.


Ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, defnyddiodd Robeco nifer o wahanol lwybrau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys galwadau cynhadledd, ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost a phleidleisio gweithredol. Yn 2024/25 gwelwyd cyfanswm o 900 o weithgareddau ymgysylltu ar draws 237 o gwmnïau, gan gwmpasu ystod eang o themâu.

### Thema Ymgysylltu




**Ffynhonnell:** Robeco


### Llwybr Ymgysylltu




**Ffynhonnell: Robeco**

Fel y nodwyd uchod, mae'r meysydd thematig eang hyn yn cynnwys ystod o is-themâu ychwanegol, y gwnaed cynnydd amrywiol yn eu herbyn. Yn y tabl isod, rydym yn manylu ar bob thema, nifer y cwmnïau o fewn portffolios Partneriaeth Pensiwn Cymru yr aethpwyd ati i ymgysylltu â hwy ac yn rhoi rhyw arwydd o gynnydd yn erbyn pob thema (fel y mae ar ddiwedd Mawrth 2025). Mae'r siart hefyd yn nodi nifer y cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy o dan bob thema (dangosir y ffigur mewn cromfachau), gan nodi bod rhai cwmnïau'n cael eu cynnwys o dan sawl thema.

Cynnydd ar ymgysylltu fesul thema




Ffynhonnell: Robeco

Rydym yn derbyn gwybodaeth sylweddol am weithgareddau ymgysylltu, ar bob thema a manylion y gweithgarwch a wneir bob blwyddyn. Rydym yn crynhoi nifer o feysydd isod sydd o ddiddordeb arbennig i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, o ystyried ein Themâu Stiwardiaeth a thrafodaethau eraill dros y flwyddyn, a sut mae Robeco (a darparwyr gwasanaeth eraill) yn cefnogi gweithgarwch stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## Hawliau dynol

Mae'r cynnydd diweddar mewn tensiynau geowleidyddol (fel y gwrthdaro yn Rwsia-Wcráin ac Israel-Gaza) yn peri risgiau cyfreithiol ac ariannol difrifol i gwmnïau, yn ogystal ag i'w henw da. Oherwydd lledaeniad daearyddol ardaloedd CAHRA, mae'r risgiau'n deillio nid yn unig o olion traed uniongyrchol gweithrediadau'r cwmni, ond hefyd o gadwyni cyflenwi. Ar ben hynny, bydd y ffyrdd y mae cwmnïau'n lliniaru ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â CAHRA yn dylanwadu ar yr amlygiad wyneba buddsoddwyr. Felly, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol ac yn monitro gweithgaredd ei ddarparwyr gwasanaeth yn y maes hwn.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**Diwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol ar gyfer ardaloedd CAHRA**

Mae'r rhaglen ymgysylltu hon yn targedu cwmnïau sy'n gweithredu mewn ardaloedd CAHRA neu sy'n gysylltiedig â nhw, gan ganolbwyntio ar reoli a diogelu hawliau dynol mewn amgylcheddau sydd mor gymhleth a sensitif i wrthdaro. Mae'r thema yn annog arferion diwydrwydd dyladwy hawliau dynol uwch ar gyfer y cwmnïau hynny yr ymgysylltir â nhw, gan gynnwys amcanion penodol ynghylch ymrwymiadau polisi, adfer ac adrodd. Dros y tair blynedd o ymgysylltu, mae Robeco wedi canfod amrywiadau o ran gwelliant cwmni, gyda rhai'n datblygu prosesau cadarn sy'n graddio risg, tra bo eraill ar ei hôl hi wrth ddatblygu prosesau o'r fath. Mae Robeco yn gweithio ar fethodoleg sgrinio newydd i barhau i nodi a gwerthuso cwmnïau sy'n ymwneud ag ardaloedd CAHRA, a'u heffeithiau cysylltiedig ar hawliau dynol, a allai arwain at ehangu'r thema. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau â'i deialog â Robeco i ddeall canfyddiadau'r ymgysylltiadau hyn yn well a'r camau pellach y gellir eu cymryd.

#### Heidelberg Materials

Ymgysylltodd Robeco â Heidelberg Materials, cwmni deunyddiau adeiladu Almaenig, o gofio bod gweithrediadau'r cwmni'n gysylltiedig ag ardaloedd dadleuol, gan gynnwys Tiriogaethau Meddianedig Palesteina. Ar y cyfan, mae Robeco yn nodi cynnydd cadarnhaol, gyda Heidelberg yn cryfhau ei systemau hawliau dynol, gan gynnwys datgeliadau ar weithgaredd a chanlyniadau llinell gymorth cwynion y cwmni a monitro dangosyddion risg penodol i ardaloedd CAHRA. Er bod agweddau ar y broses diwydrwydd dyladwy uwch y mae Heidelberg yn dal i geisio penderfynu ar eu hyd a'u lled, mae gan Robeco farn gadarnhaol ar ymdrechion hyd yn hyn.

#### Volkswagen (VW)

Caeodd Robeco ei ymgysylltiad â VW o dan y thema Diwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol mewn ardaloedd CAHRA. Roedd Robeco wedi bod yn ymgysylltu â'r cwmni ers Ch3 2023, o ystyried y gweithrediadau yn Xinjiang a honiadau o gamdriniaeth hawliau dynol yn erbyn grŵp lleiafrifol Uyghur yn y rhanbarth. Roedd pwyslais yr ymgysylltu ar ddiwydrwydd dyladwy hawliau dynol VW. Roedd Robeco yn fodlon ar sut oedd VW yn datblygu'r pileri hyn, yn enwedig datblygiad VW o brosesau gwell o ran diwydrwydd dyladwy hawliau dynol, adfer ac adrodd.

Mae LAPFF wedi gwneud cryn waith i ymgysylltu â chwmnïau sydd â chysylltiad ag ardaloedd CAHRA. Yn ei ymgysylltiadau cychwynnol, er mwyn deall cysylltiad ac arferion y cwmni'n well o ran risgiau o'r fath, ym mis Rhagfyr 2024 ysgrifennodd LAPFF at bob cwmni FTSE 100 (ac eithrio ymddiriedolaethau buddsoddi) i ofyn iddynt roi manylion i'r Fforwm am eu dull gweithredu mewn ardaloedd CAHRA neu am gael gweithrediadau neu gronfeydd sy'n gysylltiedig ag ardaloedd CAHRA. Nododd LAPFF yr holl risgiau hawliau dynol a'r effeithiau negyddol posibl ar berfformiad ariannol a gofyn i gwmnïau ddarparu gwybodaeth am eu dull lliniaru risg mewn perthynas ag ardaloedd CAHRA. Mae LAPFF yn parhau i fonitro'r ymatebion i'r llythyr hwn, a bydd yn eu defnyddio i lywio ymgysylltiadau yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd LAPFF yn dilyn hynt cwmnïau, yn parhau i fonitro gwrthdaro byd-eang parhaus, ac yn ymgysylltu â chwmnïau sy'n gweithredu'n ehangach mewn ardaloedd yr

effeithir arnynt gan wrthdaro ac ardaloedd risg uchel, er mwyn asesu diwydrwydd dyladwy hawliau dynol cryfach. Yng nghyfarfod blynyddol LAPFF, pleidleisiodd Partneriaeth Pensiwn Cymru dros ehangu'r gwaith hwn, gan gydnabod bod hwn yn faes risg parhaus ac yn achos pryder i randdeiliaid. Mae rhan o'r ehangiad yn canolbwyntio ar ymgysylltu â sefydliadau ariannol, lle gall benthyca a buddsoddi fod yn gysylltiedig â chamdriniaeth hawliau dynol neu ariannu gwrthdaro. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn ein datganiad nesaf.

## Ardal Ymgysylltu: LAPFF: Rhestr UNOHCHR o fentrau mewn perthynas â Thiriogaethau Meddianedig Palesteina

Mae LAPFF wedi ymgysylltu â chwmnïau sy'n gweithredu mewn ardaloedd o wrthdaro i sicrhau Diwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol cryfach, yn enwedig y rheiny ar Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â Thiriogaethau Meddianedig Palesteina. Mae LAPFF eisiau sicrhau bod cwmnïau'n dilyn Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol, sy'n amlinellu'r cyfrifoldeb corfforaethol i barchu hawliau dynol.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Estr UNOHCHR o fentrau mewn perthynas â Thiriogaethau Meddianedig Palesteina**

### Booking Holdings

Ymgysylltodd LAPFF â Booking Holdings i drafod ei ymagwedd at Ddiwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol cryfach mewn ardaloedd CAHRA, gan gynnwys Israel a Phalesteina. Roedd y drafodaeth hefyd yn ymdrin â'i brosesau ar gyfer gadael, mynd i mewn, neu aros mewn ardaloedd risg uchel. Gofynnodd LAPFF i'r cwmni ddiweddaru ei ddatganiad hawliau dynol.

Roedd Robeco wedi ymgysylltu â Booking Holdings ar wahân ar y pwnc hwn ac mae wedi dod â'r ymgysylltiad hwn i ben fel un llwyddiannus. Ymgysylltodd Robeco â'r cwmni ar eu pileri ymrwymiadau polisi, diwydrwydd dyladwy uwch, adfer ac adrodd. Roedd Robeco yn fodlon â sut oedd y cwmni'n datblygu'r pileri hyn, yn enwedig datblygu model graddio risg i asesu eiddo mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan wrthdaro, yn ogystal â mecanwaith cwyno â strwythur da gyda chamau uwchgyfeirio clir.

### Motorola Solutions

Mewn cyfarfod gyda Motorola Solutions, bu LAPFF yn ymholi ynghylch ymagwedd y cwmni at Ddiwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol cryfach mewn ardaloedd o wrthdaro, gan gynnwys Israel a Phalesteina, ei brosesau ar gyfer asesu risgiau cysylltiedig gyda chwsmeriaid a chynhyrchion, a chynnwys y cwmni ar gronfa ddata UNOHCHR. Nid yw LAPFF wedi cyhoeddi canlyniadau'r ymgysylltiad hwn hyd yn hyn.

## Rheoli cyfalaf dynol


Mae Robeco bellach wedi symud y rhaglen ymgysylltu Amrywiaeth a Chynhwysiant i thema Rheoli Cyfalaf Dynol ehangach, gan gydnabod yr angen i fynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. Mae'r thema hon felly wedi ehangu o edrych ar arferion a datgeliadau amrywiaeth yn unig, bylchau cyflog rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth bwrdd, i gynnwys boddhad swydd, digolledu, llogi mewnol, hyfforddiant gweithwyr a throsiant. Gall rheolaeth gadarn ar gyfalaf dynol gynyddu gwerth cyfranddaliwr, sy'n gysylltiedig â gwell cynhyrchiant, perfformiad gwell o ran prisiau stoc, a gwerth y cwmni.

## Hinsawdd

Mae hinsawdd yn dal i fod yn faes ffocws stiwardiaeth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'i rhanddeiliaid. Rydym yn falch bod Robeco yn parhau i adlewyrchu amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn ystod o themâu ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan hefyd gynnwys amcanion hinsawdd mewn meysydd ymgysylltu eraill nad oes ganddynt ffocws ar yr hinsawdd (megis ymgysylltiadau Nodau Datblygu Cynaliadwy ynghylch Deallusrwydd Artiffisial a hawliau dynol). Mae Robeco hefyd yn ymgysylltu ar yr hinsawdd a natur gyda'i gilydd, gan gydnabod y cysylltiad rhwng y materion hyn. Mae Robeco yn parhau i ddatblygu ei ddull ymgysylltu yn y maes hwn, er enghraifft, targedu gwariant cyfalaf gwyrdd a datblygu fframwaith 'say on climate' sector-benodol, yn ogystal â'r gwaith a wnaed i fesur effaith eu hymgysylltiadau yn y maes hwn yn y byd go iawn.

## Robeco: allyriadau sero net

Mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu ers tair blynedd gydag 'Anglo American' o dan y thema Allyriadau Carbon Sero Net, fel rhan o'r ymdrechion cydweithredol gyda CA100+. Mae Robeco yn gadarnhaol ar gynlluniau ar gyfer ailstrwythuro corfforaethol, a ddechreuodd y llynedd, a bydd yn cefnogi nodau'r cwmni o ran rheoli pontio, gan fuddsoddi mewn 'deunyddiau sy'n galluogi'r dyfodol' (gwrtaith carbon isel, mwyn haearn a chopr) a gwaredu holl byllau glo metelegol y cwmni. Yn gadarnhaol, mae proffil allyriadau 'Anglo American' yn gostwng ac mae gan y cwmni gynlluniau i osod targedau lleihau allyriadau newydd unwaith y bydd yr ailstrwythuro wedi'i gwblhau. Teimla Robeco fod 'Anglo American' ar y blaen i'w gymheiriaid o ran datgeliadau cwmpas 3 (un o'r ychydig lowyr



**DEDICATED CLIMATE ENGAGEMENT THEMES**
Constructive dialogue with investee companies to transition to a low-carbon world
Net zero carbon emissions | Acceleration to Paris | Just Transition in EM | Climate & nature transition of financials

**CLIMATE OBJECTIVES IN BROADER ENGAGEMENT THEMES**
Embedding climate into engagement cases in non-climate themes for relevant sectors.

**CLIMATE VOTING APPROACH**
Targeting high-carbon emitting investee companies that fail to meet our expectations for action on climate change.

**POLICY AND SOVEREIGN ENGAGEMENT**
Collective investor engagement on climate-related policies and dialogue with selected governments. Australia engagement since 2022. Canada engagement launching in 2025.

**Ffynhonnell:** Robeco, for illustrative purposes only. Statistics subject to change. NDC: Nationally Determined Contributions; commitments that countries make to reduce their greenhouse gas emissions as part of climate change mitigation. Robeco Active Ownership. LGPS Active Ownership Client Panel 2024

i wneud hynny). Felly, mae Robeco yn fodlon ar y cynnydd ar y thema hon ac wedi dod â'r ymgysylltiad i ben fel un llwyddiannus, gyda phedwar o'r naw amcan wedi'u cau'n llwyddiannus a thri yn dangos cynnydd cadarnhaol. Dim ond yn yr amcanion pontio teg a chyfrifo hinsawdd gwelwyd dim cynnydd.

## Robeco: Pontio Teg mewn Marchnadoedd Datblygol

Mae Robeco bellach yn ei ail flwyddyn o ymgysylltiadau ar y thema Pontio Teg yn y thema Marchnadoedd Datblygol. Mae'r thema yn canolbwyntio ar gefnogi gweithluoedd, cymunedau a chadwyni cyflenwi wrth i ni symud i ffwrdd o economïau sy'n seiliedig ar danwydd ffosil ac sy'n disbyddu adnoddau, tuag at gynhyrchu cynaliadwy, ac yn ymdrin â themâu fel brwydro yn erbyn newid hinsawdd a diogelu bioamrywiaeth. Mae'r pontio teg yn hanfodol wrth fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol, economaidd a chydraddoldeb sy'n deillio o'r newid i economi gynaliadwy, carbon isel. Hebddo, gallai gweithredu ar newid hinsawdd waethygu anghydraddoldebau a chael effaith anghymesur ar grwpiau fel gweithwyr mewn diwydiannau carbon-ddwys a phoblogaethau brodorol. Ar gyfer y thema hon, mae Robeco yn canolbwyntio ar gwmnïau mewn marchnadoedd datblygol, oherwydd eu dibyniaeth ar ddiwydiannau allyriadau uchel a'r potensial ar gyfer pontio economaidd trwy arferion cynaliadwy. Mae Robeco yn ymgysylltu â'r cwmnïau hyn o ran nifer o amcanion: cael cwmnïau i ymrwymo i bontio teg ac ymgorffori hynny yn eu strwythurau llywodraethu; cynyddu deialog rhwng rhanddeiliaid a chwmnïau ar y pwnc hwn; cyhoeddi cynllun pontio teg; rheoli risgiau cysylltiedig; a chynyddu tryloywder a datgeliadau yn unol â fframweithiau byd-eang, fel y TCFD.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Ymgysylltu ecosystem: y tu hwnt i ymgysylltu corfforaethol**

Mae ymgysylltu ecosystemau yn cyfeirio at gynnwys yr holl randdeiliaid, megis llywodraethau, busnesau, gweithwyr, cymunedau, sefydliadau ariannol a chymdeithas sifil, wrth ddylunio a gweithredu atebion teg ar gyfer y newid i economi carbon isel. Mae'n allweddol er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus a theg.

O'r herwydd, ymestynnodd Robeco ei ymdrechion y tu hwnt i ymgysylltu corfforaethol fel ei fod hefyd yn cynnwys:

- Ymgysylltu polisi cyhoeddus: Mae Robeco yn ymgysylltu â llunwyr polisi i gefnogi datblygu polisïau pontio sy'n ymwybodol yn gymdeithasol.
- Ymgysylltu â diwydiant: Mae Robeco wedi cymryd rhan weithredol mewn mentrau diwydiant, gan ymuno â ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ar gyfer sefydliadau ariannol yn rhanbarth Asia-Môr Tawel ac yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â buddsoddwyr eraill yn barhaus.
- Deialog cymdeithas sifil: trwy sefydliadau rhyngwladol fel Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, mae Robeco yn ymgysylltu â chyrff anllywodraethol, undebau llafur a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn Fforwm Busnes Cyfrifol a Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig.
- Ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc: Mae Robeco yn trafod pontio teg yn barhaus gydag arbenigwyr pwnc o Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Genedlaethol Singapore.
- Meithrin gallu: Mae Robeco yn trefnu byrddau crwn ar gyfer sefydliadau ariannol ar y pontio teg.

## Robeco: Cyflymu tuag at Gytundeb Paris

Mae'r thema ymgysylltu Cyflymu tuag at Gytundeb Paris yn ymgysylltiad uwch, sy'n canolbwyntio ar allyrwyr uchel sydd â rheolaeth wan dros allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn 2024, cwblhaodd Robeco yr ymgysylltiadau mwyaf gweithredol o dan y thema hon ac mae wedi dewis dyroddwyr newydd i ymgysylltu wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer ail gam yr ymgysylltu. Mae Robeco yn rhoi pwyslais ar ddileu glo, yn unol â Chytundeb Hinsawdd Glasgow COP26, lle ymrwymodd gwledydd i gyflymu'r cyfnod o bŵer glo diball. Felly, mae'r ymgysylltiadau'n canolbwyntio ar gynlluniau pontio hinsawdd cwmnïau, ac mae Robeco yn annog cynnwys ymrwymiad ynddynt i ddatblygiadau pŵer 'dim glo newydd', gan nodi blwyddyn o ddileu graddol a mabwysiadu targedau lleihau allyriadau gyda cherrig milltir credadwy. Ymgysylltwyd â 23 o gwmnïau ar gyfer y thema hon yn Ch4 24. Mae Robeco wedi dewis a chychwyn ymgysylltu â set newydd o gwmnïau ar gyfer ail gam y thema hon, gydag adroddiadau ar gael ar gyfer hyn yn dilyn diwedd y flwyddyn.

## ASTUDIAETH ACHOS:

**Sumitomo**

Dangosodd Robeco Sumitomo Corporation fel enghraifft o sut y gall cwmnïau leihau'r pŵer glo mae'n ei gynhyrchu. Ymgysylltodd Robeco â'r cwmni rhwng 2021 a 2024 fel rhan o'r ymgysylltiad uwch Cyflymu tuag at Gytundeb Paris, gan ofyn i'r cwmni fabwysiadu cynllun fesul cam i ddileu glo. Ers hynny, mae'r cwmni wedi ymrwymo i beidio â buddsoddi mewn rhagor o brosiectau glo thermol ac wedi tynnu'n ôl o sawl prosiect gorsaf bŵer glo. Mae gan y cwmni hefyd gynllun ar gyfer dileu ei asedau glo thermol yn raddol erbyn diwedd y 2040au, gyda thargedau canolradd. Mae Sumitomo wedi dod i gytundeb gyda chwmni pŵer sy'n eiddo i wladwriaeth Indonesia i gyflymu'r defnydd o ddulliau adnewyddadwy a dod â glo i ben yn gynnar.

## LAPFF: hinsawdd

Er taw Robeco sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o waith stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru, rydym hefyd yn cydnabod gwerth ychwanegol ymgysylltiadau ein rheolwyr buddsoddi a gwaith LAPFF.

Mae LAPFF wedi parhau â'i ymgysylltiadau hinsawdd ar draws nifer o sectorau. Mae hyn yn cynnwys: adeiladwyr cartrefi y DU, lle mae ymgysylltiadau wedi canolbwyntio ar strategaethau pontio hinsawdd, cyflenwyr ynni, canolbwyntio ar symud i ffwrdd o fuddsoddiad mewn tanwydd ffosil a chynyddu buddsoddiad mewn seilwaith ynni glân, gan gynnwys storio ynni a moderneiddio'r grid; enwau olew a nwy, lle rydym wedi gweld gwanhau ymrwymiadau hinsawdd; a gyda banciau ar ariannu pontio ynni.

## ASTUDIAETH ACHOS:

### LAPFF: ariannu tanwydd ffosil

Maes ffocws ar gyfer LAPFF yw'r rôl sylweddol sydd gan fanciau o ran pontio ynni, wrth barhau i gefnogi ynni tanwydd ffosil ac ariannu dewisiadau amgen carbon isel. Fel rhan o waith LAPFF gyda grŵp buddsoddwyr Asia Research and Engagement, mae'r Fforwm yn ceisio ymgysylltu â sefydliadau ariannol mawr yn Asia i wella eu haliniad â llwybr 1.5°C. Golyga hyn ddatgeliadau uwch, fframweithiau cyllid pontio cryfach, a mabwysiadu polisïau cliriach sy'n ymwneud ag ariannu rhagor o ffynonellau ynni dwys eu hallyriadau fel glo a thywod olew.

Ymgysylltodd LAPFF â Sumitomo Mitsui Banking Corporation (SMBC), sydd bellach wedi datblygu Llawlyfr Cyllid Pontio mewn perthynas â'i strategaeth ariannu pontio. Mae'r llawlyfr hwn nid yn unig yn darparu canllawiau ar gyfer trafodion ond hefyd yn cynnwys asesiadau cynnydd cleientiaid blynyddol i sicrhau cysondeb â'i nodau cynaliadwyedd. Gan ddefnyddio hyn, mae SMBC yn cymryd camau i sicrhau bod ei weithgareddau ariannu'n cyd-fynd â gofynion pontio hinsawdd tra'n rheoli ei allyriadau a ariennir ei hun.

## Russell Investments: pontio hinsawdd

Gan weithio ar y cyd â'i bartner ymgysylltu Sustainalytics, ymgysylltodd Russell Investments ag un o'r dyroddwyr ar restr ffocws hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru o dan raglen ymgysylltu Pontio Sero Net. Ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar dargedau hinsawdd, gwariant cyfalaf ar ddatgarboneiddio, ac alinio â thargedau seiliedig ar wyddoniaeth (gan gynnwys cwmpas 3). Mae Russell yn nodi'r cynnydd, gyda'r cwmni yn gosod nodau hinsawdd uchelgeisiol ar gyfer 2030, wedi'u hategu gan wariant cyfalaf cynyddol tuag at ddatgarboneiddio, gan gynnwys trwy hydrogen gwyrdd a defnyddio technolegau gwaredu carbon. Bydd Russell yn parhau i fonitro cynnydd y cwmni, yn enwedig mewn perthynas â thargedau allyriadau cwmpas 3 a dadlau dros fwy o gymorth polisi (e.e. mecanwaith addasu ffiniau carbon).

Ymgysylltodd Russell hefyd â'i Is-ymgynghorydd ar y daliad oherwydd ei sgoriau ESG a charbon isel, a phryderon iechyd a diogelwch, a nodwyd o fewn monitro parhaus. O ran ESG a sgorio carbon, credai Russell fod y sgoriau hyn yn isel oherwydd model busnes y cwmni a'r aneglurder o ran datgarboneiddio ei weithrediadau. Daw Russell i'r casgliad bod y cwmni wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio, gyda phrosiectau dur gwyrdd mawr ar waith yn Ewrop. Mae Russell hefyd yn dweud bod y cwmni yn ystyried integreiddio llwybr dur byd-eang y fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth i'w gweithrediadau. Roedd y pryderon iechyd a diogelwch oherwydd problem pwll glo ddiweddar mewn rhanbarth penodol; noda Russell fod y cwmni ers hynny wedi dadfuddsoddi o'i asedau yn y rhanbarth hwn, gan ddigolledu dioddefwyr a chomisiynu archwiliad diogelwch trydydd parti.

## Russell Investments: datgarboneiddio

Ymgysylltodd Russell ag un o'r cewri olew a nwy newydd, i ddeall ei strategaeth ddatgarboneiddio a'i gynllun pontio hinsawdd hirdymor. Er cydnabod uchelgais y cwmni i fod yn garbon niwtral erbyn 2050, mae Russell yn tynnu sylw at y diffyg targedau interim (y tu hwnt i 2030) ac yn nodi'r angen am fwy o drawsnewid. Roedd Russell yn teimlo nad oedd gan y dyroddwr gynllun sero net clir, gan nodi diffyg targedau interim neu gerrig milltir clir tu hwnt i 2030. Er bod dyraniad cyfalaf tuag at dechnolegau carbon is wedi bod - er enghraifft, buddsoddiadau mewn solar, gwynt a biodanwydd - mae'r rhain wedi bod fel cyfranddaliadau lleiafrifol mewn mentrau trydydd parti. Bydd Russell yn parhau i ymgysylltu a monitro ymdrechion, yn enwedig mewn perthynas â thargedau interim, gwariant cyfalaf ar gyfer datrysiadau carbon ar raddfa fawr (gan gynnwys dal carbon) ac eirioli am gymorth polisi gan y llywodraeth.

## Iechyd y Môr

Cyhoeddodd Robeco lansiad thema ymgysylltu newydd Iechyd y Môr, sef thema bu Partneriaeth Pensiwn Cymru'n eirioli drosti ar ddiwedd 2023. Mae'r thema yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth forol trwy ymgysylltu â chwmnïau sydd wrth wraidd y pwnc hwn, gan gynnwys pysgodfeydd, llongau, mordeithiau a mwyngloddio môr dwfn. Y nod yw llunio 'economi las' wydn a chadarnhaol tuag at natur. Bydd ymgysylltiadau yn canolbwyntio ar reolaeth cwmnïau dros eu heffeithiau a'u dibyniaeth ar iechyd y môr, a byddant yn archwilio cyfleoedd i bontio tuag at fodelau niwtral o ran natur a modelau creu gwerth adferol. Amcan hyn yw helpu cwmnïau i gael gwell dealltwriaeth o'u heffeithiau ar natur a bioamrywiaeth, a helpu cwmnïau i flaenoriaethu ac adeiladu gwytnwch yn wyneb effeithiau o'r fath. Gwneir ymdrech i gael y cwmnïau yr ymgysylltir â nhw i sicrhau bod iechyd morol yn rhan annatod o'u prosesau llywodraethu a strategaeth. Bydd y thema ymgysylltu hon yn para tair blynedd, gan ddechrau yn Ch1 2025 a bydd yn ymgysylltu â grŵp dethol o gwmnïau ledled y byd, o bysgodfeydd bychain yn Asia i longau mordeithio yn y Bahamas.

## Ymgysylltiad polisi

Yn y paneli cleientiaid, roeddem yn awyddus i gael mwy o dryloywder ar ymgysylltiadau polisi Robeco â gwladwriaethau a chyrff rheoleiddio. Amlinellodd Robeco ei drafodaethau parhaus gyda llywodraethau Brasil ac Indonesia, fel rhan o'i ymgysylltiadau ynghylch datgoedwigo a cholli bioamrywiaeth, gan gysylltu hyn ag ymrwymiadau o dan eu NDCs ('cyfraniad y penderfynir arno'n genedlaethol', y targedau lleihau allyriadau sefydlwyd dan Gytundeb Paris).

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae Robeco hefyd wedi bod yn ymgysylltu ag Awstralia, un o allforwyr glo mwyaf y byd, ar yr hinsawdd. Gydag ail NDC Awstralia i'w gyhoeddi yn 2025, cyfarfu Robeco â gweinidogion ac ymgynghorwyr polisi hinsawdd i drafod y broses gosod targedau NDC. Amlinellodd Robeco pam y bydd targed NDC uchelgeisiol yn 2025 yn gam pwysig, nid yn unig wrth atal pontio a risg ffisegol i'r economi, ond hefyd wrth arddangos i fuddsoddwyr Ewropeaidd gymwysterau gwyrdd dyled ffederal a gwladwriaethol Awstralia. Fel rhan o'r drafodaeth gyffredinol, sydd wedi cynnwys trafodaethau ar Fframwaith Bondiau Gwyrdd Awstralia, ym mis Mehefin 2024, cyhoeddodd Swyddfa Rheolaeth Ariannol Awstralia ei bond gwyrdd gyntaf, gan alluogi buddsoddwyr i gefnogi prosiectau cyhoeddus sy'n helpu proses bontio Awstralia i sero net erbyn 2050.

# SUT YR YDYM YN UWCHGYFEIRIO PRYDERON

Gall Partneriaeth Pensiwn Cymru uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder yn uniongyrchol gyda Darparwyr Gwasanaethau er mwyn iddynt fynd i'r afael â hwy, ond mae hefyd yn dibynnu ar Ddarparwyr Gwasanaethau i uwchgyfeirio materion lle nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn ystod y broses ymgysylltu. Mae'r craffu parhaus gan RISG yn cynnig fforwm ar gyfer trafod ac uwchgyfeirio, er y gall uwchgyfeirio godi yn yr un modd oherwydd trafodaeth mewn fforymau eraill.

Rydym yn cydnabod na ddylai'r broses stiwardiaeth fod heb ganlyniad, yn enwedig lle nad ystyrir bod ymgysylltu'n 'llwyddiannus'. Gall ymgysylltiadau nad ydynt yn llwyddiannus gynnwys: diffyg ymateb gan y dyroddwr; methu cydnabod y pryderon godwyd wrth ymgysylltu; neu wrthod mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon sydd wedi'u codi. Rydym yn deall bod nifer o ddulliau ar gael i ni fel perchnogion gweithredol i uwchgyfeirio pryderon yn effeithiol. Gall hyn gynnwys:

- Participating in collective engagement with other likeminded investors to address concerns
- Cymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu ar y cyd â buddsoddwyr eraill o'r un anian i fynd i'r afael â phryderon
- Mynegi pryderon yn benodol mewn gohebiaeth ysgrifenedig gyda'r bwrdd
- Defnyddio pleidleisio trwy ddirprwy fel offeryn ar gynigion cysylltiedig neu fel y maent yn ymwneud ag enwebiadau perthnasol y bwrdd
- Ffeilio penderfyniadau cyfranddalwyr sy'n mynd i'r afael â phryderon yn uniongyrchol

Rydym eisoes wedi sôn am nifer o'r rhain trwy gydol yr adroddiad hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o bleidleisio drwy ddirprwy, a byddwn yn tynnu sylw at nifer o astudiaethau achos ychwanegol isod.

## Uwchgyfeirio gan Robeco

Mae'r Bartneriaeth yn nodi bod yna sawl enghraifft o uwchgyfeirio a wnaed gan Robeco yn ei weithgarwch stiwardiaeth dros y cyfnod adrodd, a amlygir gennym yn ein hastudiaethau achos, uchod ac isod.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**Uwchgyfeirio pryderon ar risg yn y gadwyn gyflenwi**

Ysgrifennodd Robeco at gadeiryddes un o'r cwmnïau yr ymgysylltir â nhw o dan thema Pontio Ffasiwn, gan ofyn am alwad gynadledda a diweddariad ar ôl sawl ymgais aflwyddiannus i drefnu cyfarfod. Roedd Robeco eisiau trafod sut mae'r cwmni'n gweld risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â'i ymagwedd tuag at arferion llafur cyfrifol ac ymgysylltu â chyflenwyr, yn ogystal â'i ymagwedd ddatgarboneiddio. Derbyniodd Robeco ymateb prydlon i'w lythyr uwchgyfeirio ac ers hynny mae wedi cael galwad gynadledda gydag Is-lywyddion y cwmni ar gyfer Cynaliadwyedd Byd-eang a Chysylltiadau Buddsoddwyr. Mae'r trafodaethau wedi bod yn bositif, er wedi nodi bydd angen bod yn fwy tryloyw wrth adrodd i sicrhau atebolrwydd ac osgoi gwyrddgalchu.

### ASTUDIAETH ACHOS:

**Natur**

Anfonodd Robeco lythyr uwchgyfeirio at fwrdd cyfarwyddwyr dyroddwr bwyd yr ymgysylltir ag ef o dan thema Nature Action, ar y cyd â buddsoddwyr eraill sy'n ymwneud â NA100, yn annog y cwmni i ddechrau trafod pynciau cysylltiedig â natur gyda'i gyfranddalwyr. Sgoriodd y cwmni yn eithaf gwael yn ei asesiad NA100 cyntaf, ac er bod ganddo dargedau i leihau'r defnydd o ddŵr, nid oes gwybodaeth am ei ymdrechion o ran lleihau'r ffactorau eraill sy'n ysgogi colli bioamrywiaeth. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yr ymgysylltu hwn fel rhan o'n craffu ar yr hinsawdd.

# Egwyddorion uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru

Dyma'r flwyddyn gyntaf i egwyddorion uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru, a amlinellir isod, gael eu cynnwys ym Mholisi Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Dylid cyfathrebu'r targed a'r amcanion ymgysylltu yn glir ac yn rheolaidd rhwng partïon
- Dylid gosod nodau'r gwaith ymgysylltu yn erbyn yr achos buddsoddi parhaus ar gyfer y daliad
- Dylid rhoi gwybod am gynnydd i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol
- Dylid nodi'n glir y camau uwchgyfeirio sy'n cael eu cymryd gan gynrychiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod yr ymgysylltu
- Dylai gwaith ymgysylltu (uwch) yr adroddir ei fod wedi methu gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru sbarduno mwy o adrodd parhaus gan Reolwyr Buddsoddi'r Bartneriaeth
- Dylai Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru barhau i wneud argymhellion pleidleisio ar stociau sy'n cael eu cadw ar ôl ymgysylltu aflwyddiannus
- Bydd dadfuddsoddi yn cael ei ystyried os na fydd yr uwchgyfeirio'n llwyddo

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom drefnu gweithdy gyda'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ar y cyd â Russell IM, i amlinellu sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Yn achos yr ymgysylltiadau aflwyddiannus (ac a oedd bellach wedi'u cynnwys ar restr wahardd Robeco), nodom fod y mwyafrif helaeth yn cael eu dal yn y cronfeydd goddefol sy'n olrhain mynegai. Yr un dyroddwr yr oedd cysylltiad gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru â hi o fewn yr Is-gronfeydd gweithredol oedd Korea Electric Power Company (KEPCO), ac roedd Robeco wedi'i ychwanegu at ei restr wahardd yn 2021. Ers 2015, roedd KEPCO a'i is-gwmnïau gweithredu wedi wynebu sawl honiad o lygredd yn ymwneud â gweithwyr a rheolwyr. Ym mis Hydref 2018, dechreuodd Robeco ymgysylltiad uwch â KEPCO, a gaewyd fel un aneffeithiol yn 2021, gyda'r cwmni wedyn wedi'i ychwanegu at restr wahardd Robeco.

Mewn trafodaethau â Russell, roeddem eisiau deall y rhesymeg buddsoddi sylfaenol dros ddal y cyhoeddwr ac a oedd unrhyw ddiweddariadau wedi bod ar unioni'r toriad, o ystyried ymgysylltiadau blaenorol. Buddsoddodd rheolwr y gronfa yn y stoc gyntaf ym mis Mawrth 2024, gyda'r rhagolygon buddsoddi yn cael eu hystyried yn gadarnhaol. Dywedodd y rheolwr hefyd fod KEPCO wedi bod yn dryloyw ac yn dderbyngar yn ystod ymgysylltiadau ESG, gan fynd i'r afael â phryderon am eu map ffordd allyriadau carbon a materion gweithredol. Roeddent hefyd yn gwella cyfathrebu â buddsoddwyr yr Unol Daleithiau trwy gael person penodol ar gyfer cysylltiadau buddsoddwyr a diwrnod buddsoddwyr yn Efrog Newydd.

Fel rhan o bolisi uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn enwedig trosglwyddo gwybodaeth rhwng ein darparwyr gwasanaeth, rhannom y wybodaeth hon gyda Robeco ganol 2024. Roeddem yn falch o weld, ar ôl diwedd y flwyddyn, fod Robeco bellach wedi tynnu KEPCO oddi ar ei restr gwahardd oherwydd ymddygiad dadleuol, a hynny am y rhesymau canlynol:

*O ran Sustainalytics, mae KEPCO bellach wedi cael ei raddio am ddwy flynedd yn olynol fel un sy'n Cydymffurfio ag Egwyddor 10 'Dylai busnesau weithio yn erbyn pob ffurf ar lygredd, gan gynnwys cribddeilio a llwgrwobrwyo'. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o gwmnïau sydd wedi'u gwahardd oherwydd ymddygiad dadleuol, e-bostiodd Robeco gysylltiadau buddsoddwyr KEPCO i gadarnhau nad oes rheidrwydd o hyd ar is-gwmnïau KEPCO i roi gwybod am gamymddwyn neu achosion o lygredd ymysg eu gweithwyr i'w Bwyllgor Moeseg a Chydymffurfiaeth. Atebodd KEPCO ein e-bost gan ddweud nad yw'n derbyn adroddiadau ar gamymddygiad gweithwyr gan is-gwmnïau, ond bod datgelu trwy system datgelu gwybodaeth reoli sefydliadau cyhoeddus Korea. Yn ogystal, mae KEPCO yn cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd yn flynyddol, gan gynnwys camymddygiad gan ei is-gwmnïau. Mae Robeco o'r farn fod datgelu trwy'r system datgelu gwybodaeth gyhoeddus a thrwy'r Adroddiad Cynaliadwyedd yn ddigonol i'r cwmni gadw ei arferion llygredig posibl ei hun ac is-gwmnïau dan reolaeth. Adolygodd Robeco hefyd newyddion ar-lein ar KEPCO ers dyddiad adolygu 2024 ac ni ddaeth o hyd i unrhyw newydd am dor-cyfraith. Mae'r cwmni bellach yn datgelu camymddygiad gan is-gwmnïau, a chan nad oedd unrhyw dorcyfraith perthnasol wedi dod i'r amlwg yn yr adolygiad, tynnodd Robeco y cwmni oddi ar y rhestr gwahardd oherwydd ymddygiad dadleuol.*

### Gwaith cychwynnol ar y fframwaith gwaharddiadau

Er bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi sefydlu'r fframwaith buddsoddi y gwneir buddsoddiadau o'i fewn, mae'r strategaethau eu hunain yn cael eu rheoli ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru gan drydydd partïon, a all, yn eu tro, ddirprwyo cyfrifoldeb am ddewis asedau unigol i reolwyr asedau eraill. Nid yw'r Bartneriaeth, hyd yn hyn, wedi gosod unrhyw waharddiadau penodol o fewn ei fframwaith buddsoddi, ac eithrio o fewn yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy (ac, i'w lansio cyn hir, y gronfa ESG oddefol bwrpasol). Fodd bynnag, mewn perthynas â'r egwyddorion uwchgyfeirio a ddatblygwyd y llynedd, ac yn dilyn trafodaeth gyda rhanddeiliaid, rydym yn awyddus i adolygu ein fframwaith a'n dull presennol ar gyfer pennu safonau gofynnol. Er i waith ddechrau gyda rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaeth cyn diwedd y flwyddyn, rydym yn disgwyl gwneud cynnydd ar y gwaith hwn dros y flwyddyn 2025/26.



# BETH NESAF?

Rydym yn cydnabod mai un o gryfderau unigryw Partneriaeth Pensiwn Cymru yw'r lefel o gydweithio sy'n bodoli rhwng holl gronfeydd CPLlL gwaelodol y Gronfa. Hoffem ddiolch i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol am eu cyfraniad a'u cefnogaeth barhaus i ddatblygu ein gwaith ar Fuddsoddi Cyfrifol, stiwardiaeth, ac wrth lywio trafodaethau trwy'r RISG. Credwn y gallwn barhau i adeiladu ar yr hyn sy'n sylfaen gadarn, yn enwedig o ran:

- Cyfuno cronfeydd (Addas i'r Dyfodol)
- Stiwardiaeth hinsawdd: rhestr fframwaith a ffocws
- Nod hinsawdd a chynlluniau pontio (gan gynnwys dadansoddiad senario)
- Fframwaith monitro rheolwyr
- Ymgysylltu cydweithredol gyda rhanddeiliaid eraill
- Datblygiad ein dull adrodd
- Rhagor o waith ar ein fframwaith dadfuddsoddi ac ystyried gwaharddiadau ar draws y Gronfa
- Lansio eiddo tirol
- Gwaith ar effaith a chodi'r gwastad, gan gynnwys ein hadroddiad effaith gyntaf ar gyfer Cymru gyfan

Er bod y bwriadau a amlinellwyd uchod i gyd wedi'u datblygu mewn rhyw ffordd ar ôl diwedd y flwyddyn, gobeithiwn y gallwn barhau i symud ymlaen nid yn unig yn y meysydd hyn, ond yn yr holl waith a wnawn fel Cronfa. Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach dros y 12 mis nesaf!



# ATODIAD 1: EGWYDDORION

| Yr Egwyddor | Cyfeirnodau tudalen |
|---|---|
| *1: Pwrpas, strategaeth a diwylliant* | 3; 12; 26 |
| *2: Llywodraethu, adnoddau a chymelliadau* | 3; 7–8; 10 |
| 3: Gwrthdaro buddiannau | 4–5 |
| 4: Hyrwyddo marchnadoedd sy'n gweithio'n dda | 6–7; 14–15; 17–24 |
| *5: Adolygu a sicrwydd* | 6–8; 12–18; 26–30; 38-46 |
| *6: Anghenion cleientiaid a buddiolwyr* | 3; 9–11; 13–14; 26–29 |
| 7: Stiwardiaeth, buddsoddi ac integreiddio ffactorau ESG | 9–18 |
| 8: Monitro rheolwyr a darparwyr gwasanaethau | 6–8; 13–18; 26; 29–30; 46 |
| 9: Ymgysylltu | 17; 19–25; 38–46 |
| 10: Cydweithio | 17; 23–25; 42; 46 |
| 11: Uwchgyfeirio | 35–37; 45–46 |
| 12: Ymarfer hawliau a chyfrifoldebau | 31–37 |

*Yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan y Cyngor Adrodd Ariannol, rydym ond wedi adrodd yn erbyn yr Egwyddorion hyn pan fu newidiadau sylweddol neu pan oedd hynny'n berthnasol yng nghyd-destun ein hadroddiad.*

# ATODIAD 2: CRYNODEB ADOLYGU'R POLISI

Gellir dod o hyd i'r adolygiad llawn ar ein gwefan: dolen gyswllt

Yn y tablau isod: mae: 🟢 yn dangos bod y disgwyliadau polisi wedi'u bodoli; mae 🟡 yn nodi rhywfaint o gynnydd, gyda disgwyliadau polisi wedi'u bodloni'n rhannol ac amlinellu 'camau i wyrdd'; mae 🔴 yn nodi bod y disgwyliadau polisi heb eu bodloni gan amlinellu 'camau i wyrdd'.

## Responsible Investment Policy

| Statws | Cyf | CYmrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| 🟢 | 3.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf yn flynyddol i benderfynu ar eu gofynion buddsoddi unigol a'u dyheadau mwy hirdymor. |
| 🟢 | 3.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried cyfleoedd yn deillio o gael gwell dealltwriaeth o ffactorau ESG. |
| 🟢 | 4.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i darparwyr gwasanaeth i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| 🟢 | 4.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei chynrychiolwyr, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD. |
| 🟢 | 5.2 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ceisio monitro ac adrodd ar risg natur, cyn belled ag y gall, a bydd yn gweithio gyda'i ddarparwyr gwasanaeth a'i gynrychiolwyr i sicrhau stiwardiaeth ddigonol ar y mater hwn. |
| 🟢 | 6.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i nodi ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol trwy aelodaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru o LAPFF a thrwy'r gweithgaredd ymgysylltu a wneir gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| 🟢 | 6.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adrodd ar sut mae gweithgarwch ymgysylltu a wneir gan ei gynrychiolwyr wedi mynd i'r afael â materion hawliau dynol yn flynyddol. |
| 🟢 | 8.1, 8.3 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir o fewn y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i'r holl risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios. . Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'w rheolwyr ddangos safonau uchel o ran integreiddio ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol. Lle bo angen, bydd y Bartneriaeth neu ei darparwyr gwasanaeth yn ymgysylltu â Rheolwyr Buddsoddi sy'n methu â bodloni disgwyliadau'r Bartneriaeth i gytuno ar gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. |
| 🟢 | 8.2 | Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl, yn yr holl amgylchiadau perthnasol, y bydd ei rheolwyr buddsoddi yn llofnodi'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU. |
| 🟢 | 9.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r Polisi Pleidleisio ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ei hymgynghorwyr a'i rheolwyr buddsoddi yn flynyddol. |
| 🟡 | 9.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i rheolwr buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio'r Bartneriaeth i gynnwys asedau a reolir gan ei rheolwr buddsoddi goddefol. |
| 🟢 | 9.5 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion am unrhyw bleidleisiau na fwriwyd mohonynt ac esboniadau pan na fwriwyd pleidleisiau yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt bob chwarter. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Rheolwyr Buddsoddi neu gynrychiolwyr eraill yn ôl yr angen. |
| 🟢 | 9.6 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i'w Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ystyried sylwedd rhybuddion pleidleisio LAPFF cyn bwrw pleidleisiau ar ran y Bartneriaeth. Pan nad yw pleidlais a fwriwyd yn unol â rhybudd pleidleisio LAPFF, mae'n ofynnol yn ôl y Bartneriaeth i'w Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ddarparu esboniad o'r gwahaniaeth. |

## Responsible Investment Policy

| Statws | Cyf | CYmrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| | **9.7, 9.8** | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiad ar yr holl waith ymgysylltu a wnaed gan y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu bob chwarter. Bydd y Bartneriaeth yn trafod unrhyw faterion o bwys gyda'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu.<br><br>Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiadau ar unrhyw waith ymgysylltu a wnaed gan ei Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol. Mae hyn yn cynnwys o fewn rhaglenni buddsoddi'r farchnad breifat. |
| | **10.1, 10.4** | Ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu cyfleoedd cydweithio posibl yn barhaus, a bydd yn llywio ac yn ceisio mewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n ei ystyried yn berthnasol.<br>Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog Rheolwyr Buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu cydweithredol neu gefnogi hyn lle ystyrir ei fod er budd ariannol cyffredinol pennaf yr Awdurdodau Cyfansoddol. |
| | **11.2** | Er mwyn sicrhau defnydd llawn o'i hawliau pleidleisio, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galw'n ôl yr holl stoc ar fenthyg cyn unrhyw gyfarfod lle gellir arfer hawliau pleidleisio ar draws yr Is-gronfeydd ecwiti gweithredol perthnasol. |
| | **12.1** | Mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer portffolios presennol a bydd yn parhau i gytuno ar fetrigau priodol mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau newydd. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadrodd chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol. |
| | **12.3** | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn mynnu fod cymhwysedd Buddsoddi Cyfrifol yr holl reolwyr buddsoddi a benodir yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar y cyd â'r partïon perthnasol, bydd y Bartneriaeth yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei rheolwyr buddsoddi. |
| | **12.4** | Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llunio a chyhoeddi adroddiad yn manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd gan ddilyn egwyddorion Côd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU 2020. |
| | **13.1** | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau y bydd o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol. |
| | **13.3** | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu i ba raddau y mae pob parti yn cadw at y polisi hwn yn flynyddol. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus. |

## Polisi Hinsawdd

| Statws | Cyf | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| 🟢 | 7 | Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, ac, os bydd angen, bydd newidiadau i'r polisi yn cael eu cynnig i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion a fydd yn cytuno arnynt. Fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried y risg i'r Awdurdodau Cyfansoddol a'u gofynion. |
| 🟢 | 13 | Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, yn flynyddol o leiaf, ac i ddeall yn llawn pa ddatrysiadau gweithredu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymiadau. |
| 🟢 | 14, 15 | Yn dilyn ei ymgynghoriad â phob Awdurdod Cyfansoddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymiadau o safbwynt yr hinsawdd.<br>Lle bo'n bosibl, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n bodloni amcanion ac ymrwymiadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. |
| 🟢 | 16 | Os na ellir datblygu datrysiadau buddsoddi unedig a chydweithredol sy'n bodloni amcanion a gofynion pob Awdurdodau Cyfansoddol ar yr un pryd, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gydag unrhyw Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi'u teilwra a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain. |
| 🟡 | 18, 19 | Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu a yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi.<br>Bydd Nod Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei adolygu'n rheolaidd, yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei yrru gan amcanion a gofynion cyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os nad yw ymarfer ymgynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi'n unfrydol, yna ni fydd Nod Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei lunio nes bod cefnogaeth unfrydol ar gyfer Nod Hinsawdd penodol. |
| 🟢 | 20 | Er mwyn hwyluso trafodaeth yn y dyfodol a chreu consensws ar yr hinsawdd yn gyffredinol, gan gynnwys ar Nod Hinsawdd cyffredin, bydd y Bartneriaeth yn datblygu Fframwaith Hinsawdd. Bydd y Fframwaith Hinsawdd yn cynnwys tacsonomeg gyffredin a sylfaen gyffredin ar gyfer gosod targedau hinsawdd. Bydd hyn yn cefnogi gwaith i ddatblygu cynnyrch yn y dyfodol, datblygiad polisïau ac ymdriniaeth gyson ag adroddiadau. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru asesu ei gronfeydd presennol (gweithredol a goddefol, rhestredig a phreifat) yn erbyn y Fframwaith Hinsawdd i hwyluso esblygiad lle bo hynny'n briodol. |
| 🟢 | 22 | Gan gydnabod ei threfniadau a'i chynigion buddsoddi presennol, bydd ffocws uniongyrchol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar amlygiad i risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn dosbarthiadau asedau eraill pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu hynny neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i ddarparu datrysiadau hinsawdd ar draws ei chynhyrchion buddsoddi, gan gynnwys asedau marchnad breifat a mandadau goddefol. |
| 🟢 | 23 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod pwysigrwydd monitro amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn gwahanol ffyrdd. Mae deall amlygiad i ddatrysiadau hinsawdd hefyd yn fuddiol i ddeall anghenion buddsoddi i gyrraedd nodau hinsawdd. Un ffordd y mae'r Bartneriaeth yn hwyluso hyn yw trwy fonitro amlygiad i nifer o nodweddion cysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer pob Is-gronfa, er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt. |
| 🟡 | 24 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd ar draws asedau a gaiff eu dal o fewn y Bartneriaeth i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posibl o fewn buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. |

## Polisi Hinsawdd

| Statws | Cyf | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| ● | 25 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol sy'n gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer ei rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol; dyma'r mecanwaith y mae'r Bartneriaeth yn ei defnyddio i fesur gofynion hyfforddiant risg cysylltiedig ag hinsawdd ei randdeiliaid. |
| ● | 27 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi sicrhau bod yr holl reolwyr gweithredol gwaelodol yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu proses fuddsoddi a herio rheolwyr gwaelodol yn rheolaidd i roi tystiolaeth o'u dull gweithredu. |
| ● | 28 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn eu hintegreiddio yn eu prosesau buddsoddi. |
| ● | 29 | Mae strategaeth stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i nodi yn ei Bolisïau Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ynghylch cyfleoedd a risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn bennaf trwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Yn benodol, bydd y Bartneriaeth yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt mewn marchnadoedd rhestredig ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys datgeliadau gan gwmnïau i fuddsoddwyr ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac ar ffurfio a gweithredu cynlluniau pontio sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris. |
| ● | 31 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro amlygiad i gyfleoedd a risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei His-gronfeydd bob chwarter. Mae'r metrigau a gaiff eu monitro'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddaliadau ag amlygiad i danwydd ffosil, dwysedd carbon allyriadau carbon, ac amlygiad i atebion hinsawdd. Bydd y Bartneriaeth yn monitro newidiadau yn arferion y farchnad i sicrhau ei bod yn gwbl ymwybodol o newid mewn arferion gorau. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn datblygu monitro pellach ar gyfer cysoni pontio asedau. |
| ● | 32 | Yn ogystal â'i adrodd ei hun, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gofyn i'w Rheolwyr Buddsoddi fonitro'r cysylltiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd uchod, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi ecwiti ac incwm sefydlog ddarparu'r monitro hwn yn rheolaidd. Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl bod ei rheolwyr marchnadoedd preifat yn adrodd ar yr hinsawdd o leiaf bob blwyddyn, er cydnabod y cyfyngiadau data sy'n bodoli'r tu allan i farchnadoedd rhestredig. Y disgwyl yw y bydd Rheolwyr Buddsoddi di-ecwiti y Bartneriaeth yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol cyn gynted ag y bydd datblygiadau'r farchnad/ data yn caniatáu. |
| ● | 34 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu ac yn adrodd ar gynnydd ar yr hinsawdd ar gyfer yr holl asedau a ddelir gan y Bartneriaeth yn flynyddol, gydag adroddiad 'Cymru gyfan' ehangach i'w gynnal bob tair blynedd. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ac fel rhan o unrhyw rwymedigaethau rheoleiddio, dylai adrodd o'r fath fod yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Bydd y Bartneriaeth yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'u hadroddiadau TCFD eu hunain. |
| ● | 35 | I hwyluso stiwardiaeth ynghylch yr hinsawdd yn benodol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cadw rhestr o gwmnïau sydd â ffocws ar yr hinsawdd (ar draws daliadau ecwiti gweithredol a goddefol) lle bydd yna graffu penodol ar stiwardiaeth. Bydd y fath restr yn cynnwys y stociau hynny o fewn y sectorau hynny yr effeithir arnynt yn sylweddol (neu'r rheiny sy'n ariannu rhai o'r fath) lle mae'r risg neu'r potensial mwyaf ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn helpu'r Bartneriaeth: i gynnal goruchwyliaeth ar arferion pleidleisio y dyroddwyr hynny; i graffu ymhellach ar weithgarwch ymgysylltu a wneir gyda'r dyroddwyr hynny; ac asesu (yn barhaus) y canlyniadau a gyflawnir. |

## Cysylltwch â ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:


**Cyfeiriad post:**

**Partneriaeth Pensiwn Cymru**
Cyngor Sir Caerfyrddin
Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

**E-bost:**
partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

**Ffôn:**
(01267) 224136


Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru a diweddariadau parhaus ar gynnydd y Bartneriaeth ar gael ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

**Gwefan:** https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

**Linked-In:** https://www.linkedin.com/Cwmni/wales-pension-partnership-PPC/

